
CPS Dyfed Powys

# Asesiad Perfformiad Cyffredinol

Cynhaliwyd Rhagfyr 2007



Hyrwyddo Gwelliant o ran Cyfiawnder Troseddol

HMcpsi

HM Crown Prosecution Service Inspectorate

CPS Dyfed Powys

# Asesiad Perfformiad Cyffredinol

Cynhaliwyd Rhagfyr 2007



Hyrwyddo Gwelliant o ran Cyfiawnder Troseddol

HMcpsi

HM Crown Prosecution Service Inspectorate

# TALFYRIADAU

Nodir y talfyriadau cyffredin a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn isod.
Eglurir y talfyriadau lleol yn yr adroddiad.

| | |
|---|---|
| ABM | Rheolwr Busnes Ardal |
| ABP | Cynllun Busnes Ardal |
| AEI | Arolygiad Effeithiolrwydd Ardal |
| ASBO | Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol |
| BCU | Uned Reoli Sylfaenol neu Uned Reoli Bwrdeistref |
| BME | Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig |
| CCP | Prif Erlynydd y Goron |
| CJA | Ardal Cyfiawnder Troseddol |
| CJS | System Cyfiawnder Troseddol |
| CJSSS | System Cyfiawnder Troseddol: Syml, Cyflym, Diannod |
| CJU | Uned Cyfiawnder Troseddol |
| CMS | System Rheoli Achosion |
| CPIA | Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol |
| CPO | Swyddog Datblygu Achos |
| CPS | Gwasanaeth Erlyn y Goron |
| CPSD | CPS Direct |
| CQA | Sicrhau Ansawdd Gwaith Achos |
| CTL | Terfyn Amser Cadwraeth |
| DCP | Erlynydd y Goron Rhanbarthol |
| DCV | Cyfathrebu'n Uniongyrchol â Dioddefwyr |
| DCW | Gweithiwr Achos Dynodedig |
| DP | Erlynydd ar Ddyletswydd |
| ECU | Uned Troseddau Economaidd |
| ETMP | Rhaglen Rheoli Treialon Effeithiol |
| HCA | Eiriolwr Llys Uwch |
| HMCPSI | Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron EM |
| JDA | Rhyddfarnu dan Gyfarwyddwyd Barnwr |
| JOA | Rhyddfarnau dan Orchymyn Barnwr |
| JPM | Monitro Perfformiad ar y Cyd |
| LCJB | Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol |
| MAPPA | Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd |
| MG3 | Ffurflen lle y cofnodir y penderfyniad cyhuddo |
| NCTA | Dim Achos i'w Ateb |
| NRFAC | Costau Gweinyddu Heb eu Neilltuo |
| NWNJ | Dim Tyst Dim Cyfiawnder |
| OBTJ | Troseddau y caiff troseddwyr eu dwyn o flaen eu gwell amdanynt |
| OPA | Asesiad Perfformiad Cyffredinol |
| PCD | Penderfyniad Cyn Cyhuddo |
| PCMH | Gwrandawiad Ple a Rheoli Achos |
| POCA | Deddf Elw Troseddau |
| PTPM | Rheoli Perfformiad Tîm yr Erlyniad |
| PYO | Troseddwr Ifanc Cyson |
| SMT/G | Uwch Dîm neu Grŵp Rheoli |
| TU | Uned Dreialon |
| UBM | Rheolwr Busnes yr Uned |
| UH | Pennaeth yr Uned |
| VPS | Datganiad Personol Dioddefwyr |
| WCU | Uned Gofal Tystion |

# CYNNWYS

**A Cyflwyniad i'r broses asesu perfformiad cyffredinol . . . . . . . . . . 2**

**B Disgrifiad o'r ardal a'r llwyth achosion . . . . . . . . . . 3**

**C Crynodeb o ddyfarniadau . . . . . . . . . . 4**

**D Agweddau diffiniol . . . . . . . . . . 7**

1 Gwneud penderfyniadau cyn cyhuddo: rheoli a gwireddu'r manteision . . . . . . . . . . 7
2 Sicrhau canlyniadau llwyddiannus yn y llysoedd ynadon . . . . . . . . . . 11
3 Sicrhau canlyniadau llwyddiannus yn Llys y Goron . . . . . . . . . . 14
4 Datblygiad achosion yn y llys . . . . . . . . . . 17
5 Achosion sensitif a throseddau casineb . . . . . . . . . . 19
6 Datgelu . . . . . . . . . . 21
7 Terfynau amser cadwraeth . . . . . . . . . . 22
8 Y gwasanaeth i ddioddefwyr a thystion . . . . . . . . . . 23
9 Cyflwyno newid . . . . . . . . . . 25
10 Rheoli adnoddau . . . . . . . . . . 28
11 Rheoli perfformiad er mwyn gwella . . . . . . . . . . 31
12 Arweinyddiaeth . . . . . . . . . . 33
13 Sicrhau hyder y gymuned . . . . . . . . . . 36

**Atodiadau**

A Data perfformiad . . . . . . . . . . 38

B Asiantaethau cyfiawnder troseddol a sefydliadau a gynorthwyodd â'r asesiad hwn o berfformiad cyffredinol . . . . . . . . . . 41

# A CYFLWYNIAD I'R BROSES ASESU PERFFORMIAD CYFFREDINOL

Canlyniad asesiad cyffredinol Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi (HMCPSI) o berfformiad Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yn Nyfed Powys yw'r adroddiad hwn ac mae'n asesiad pellach y gellir mesur gwelliant o'r asesiad sylfaenol blaenorol yn 2004-05 yn ei erbyn.

**Asesiadau**

Gwnaed dyfarniadau gan HMCPSI yn seiliedig ar asesiadau absoliwt a chymharol o berfformiad. Daeth y rhain o ddata cenedlaethol; hunanasesiad CPS; canfyddiadau HMCPSI; a mesur yn erbyn y meini prawf a'r dangosyddion perfformiad da a nodir yn fframwaith yr asesiad perfformiad cyffredinol (OPA), sydd ar gael i bob Ardal.

Pennwyd yr OPA drwy raddio perfformiad yr Ardal o fewn pob categori naill ai fel 'Ardderchog' (lefel 4), 'Da' (lefel 3), 'Gweddol' (lefel 2), neu 'Gwael' (lefel 1) yn unol â'r meini prawf a amlinellwyd yn y fframwaith.

Mae'r Arolygiaeth yn defnyddio model penderfynedig o asesu a lywir gan reolau, sydd wedi'i gynllunio i roi blaenoriaeth i'r graddau ar gyfer agweddau 'critigol' ar y gwaith fel ffactorau sy'n sbarduno'r lefel perfformiad cyffredinol terfynol. Caiff asesiadau ar gyfer yr agweddau critigol eu hategu gan raddau sy'n ymwneud â'r agweddau diffiniol eraill, er mwyn pennu'r OPA.

Mae'r tabl ar dudalen 6 yn dangos perfformiad yr Ardal ym mhob categori, ynghyd â 'chyfeiriad y teithio' ers yr OPA blaenorol.

Nid yw OPA yn arolygiad llawn ac mae'n wahanol i weithgaredd arolygu traddodiadol.
Er ei fod wedi'i gynllunio i nodi'r agweddau cadarnhaol ar berfformiad a'r rhai y mae angen eu gwella mewn ffordd gynhwysfawr, mae'n osgoi cynnig dadansoddiad manwl o'r prosesau sy'n sail i berfformiad a hynny'n fwriadol. Bydd y math hwnnw o archwiliad manwl, lle y bo angen, yn rhan o'r rhaglen ehangach o weithgaredd arolygu.

**Gradd cyfeiriad teithio**

Dengys hon y newid ym mherfformiad yr Ardal rhwng y cyfnod asesu presennol a'r OPA blaenorol, hynny yw rhwng 2004-05 a 2006-07. Mae'r graddau posibl fel a ganlyn:

**Wedi gwella** gwelliant sylweddol mewn perfformiad;
**Stable** dim newid sylweddol mewn perfformiad;
**Declined** perfformiad wedi gwaethygu'n sylweddol

# B DISGRIFIAD O'R ARDAL A'R LLWYTH ACHOSION

Mae CPS Dyfed Powys yn gwasanaethu'r ardal a gwmpesir gan Heddlu Dyfed Powys. Mae ganddo dair swyddfa, yng Nghaerfyrddin, yn Hwlffordd (y ddwy yn Nyfed) ac yn y Drenewydd (Powys). Mae Pencadlys yr Ardal (Ysgrifenyddiaeth) wedi'i leoli yn swyddfa Caerfyrddin.

Mae busnes wedi'i rannu yn ôl swyddogaeth rhwng gwaith y llysoedd ynadon a Llys y Goron, ac eithrio yn y Drenewydd lle ceir uned gyfunol sy'n ymdrin â holl achosion Powys. Ymdrinnir ag achosion yn llysoedd ynadon Dyfed yn yr Unedau Cyfiawnder Troseddol yng Nghaerfyrddin a Hwlffordd a'r rhai yn Llys y Goron gan yr Uned Dreialon yng Nghaerfyrddin. Caiff y rhan fwyaf o achosion Dyfed Powys sy'n mynd i Lys y Goron eu gwrando y tu allan i'r Ardal, yn Abertawe ac ym Merthyr Tudful (caiff achosion eu gwrando yng Nghaerdydd ar hyn o bryd oherwydd gwaith adnewyddu) gyda'r naill a'r llall yn Ne Cymru, ac yn yr Wyddgrug (Gogledd Cymru).

Yn ystod y flwyddyn 2006-07 roedd yr Ardal yn cyflogi 58.9 o aelodau staff cyfwerth â llawn amser, ac roedd ganddi gyllideb o £2,774,489, sef cynnydd o 2.8% mewn staff, a chynnydd o 12.3% yn y gyllideb ers 2004-05, y cyfnod a gwmpaswyd gan yr asesiad perfformiad cyffredinol blaenorol.

Mae manylion am lwyth achosion yr Ardal yn 2004-05, ac yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2007 fel a ganlyn:

## Gwaith cyn cyhuddo[1]

| 2004-05 | | 2006-07 | |
|---|---|---|---|
| Cyngor ysgrifenedig | 756 | Penderfyniadau a arweiniodd at gyhuddiad | 2,400 |
| Cyngor cyn cyhuddo (lle y mae ar gael) | 2,031 | Penderfyniadau nad oeddent wedi arwain at gyhuddiad[2] | 1,526 |

| **Gweithrediadau'r llysoedd ynadon** (yn cynnwys achosion a oedd yn amodol ar benderfyniad cyn cyhuddo yn flaenorol) | 2004-05 | 2006-07 | Newid canrannol |
|---|---|---|---|
| Erlyniadau yn y llysoedd ynadon | 10,673 | 10,196 | -4.5% |
| Gweithrediadau eraill | 16 | 31 | +93.8% |
| **Cyfanswm y gweithrediadau yn y llysoedd ynadon** | **10,689** | **10,227** | **-4.3%** |
| **Gweithrediadau Llys y Goron** (yn cynnwys achosion a oedd yn amodol ar benderfyniad cyn cyhuddo yn flaenorol) | | | |
| Achosion a anfonwyd neu a draddodwyd i Lys y Goron | 448 | 465 | +3.8% |
| Traddodi i ddedfryd[3] | 122 | 122 | 0.0% |
| Apeliadau o'r llysoedd ynadon[3] | 119 | 145 | +21.9% |
| **Cyfanswm gweithrediadau Llys y Goron** | **689** | **732** | **+6.2%** |

Yn 2006-07, roedd 42.0% o droseddau y caiff troseddwyr eu dwyn o flaen eu gwell amdanynt o ganlyniad i gollfarnau.

1 Nid yw'n bosibl gwneud cymhariaeth ddilys â llwyth achosion cyn cyhuddo 2004-05 am mai dim ond o fis Ebrill 2006 ymlaen yr oedd dulliau cyhuddo statudol ar waith yn llawn ym mhob un o Ardaloedd y CPS.

2 Yn cynnwys penderfyniadau a arweiniodd at beidio â chymryd camau pellach, achosion a ystyriwyd (TICs), rhybuddion a gwarediadau eraill.

3 Cynhwyswyd hefyd yn ffigurau'r llysoedd ynadon, lle y cynhaliwyd y prif wrandawiad.

# C CRYNODEB O DDYFARNIADAU

**Ffactorau cyd-destunol a chefndir**

Mae Dyfed Powys yn uned weinyddol sy'n ymestyn dros hanner tir Cymru, gyda phoblogaeth wasgaredig iawn o tua 490,000. Yn ddaearyddol hon yw'r Ardal fwyaf ymhlith y 42 Ardal CPS, ond o ran nifer y staff a gyflogir mae'n un o'r ardaloedd lleiaf.

Mae trosiant staff yn isel iawn a bu strwythur yr Ardal yn sefydlog ers yr OPA diwethaf. Penodwyd Prif Erlynydd y Goron newydd (CCP) ym mis Ionawr 2007, ac ymgymerodd Pennaeth yr Uned Dreialon â'r swydd dros dro fel CCP gweithredol nes i'r deiliad swydd parhaol newydd gyrraedd ym mis Ionawr 2008.

**Crynodeb**

Yn 2006-07, sef y cyfnod craidd ar gyfer yr OPA hwn, bu perfformiad yr Ardal yn gymharol dda o ran canlyniadau llwyddiannus (collfarnau) gyda chanran y collfarnau yn dod o dan berfformiad da yn Llys y Goron ac yn weddol yn y llysoedd ynadon. Cyflawnwyd pump allan o chwe tharged perfformiad cenedlaethol mewn perthynas â'r cynllun cyhuddo statudol (o dan y cynllun hwn mae'r cyfrifoldeb am y penderfyniad cychwynnol p'un i gyhuddo ym mhob achos ond mân achosion wedi'i drosglwyddo o'r heddlu i'r CPS) ac roedd canlyniadau achosion sensitif yn well o lawer na'r perfformiad cenedlaethol. Yn gyffredinol mae Dyfed Powys wedi chwarae ei rhan i gynnal perfformiad sy'n rhagori ar y targed cenedlaethol mewn perthynas â nifer y troseddau y caiff troseddwyr eu dwyn o flaen eu gwell amdanynt, amseroldeb ymdrin ag achosion sy'n ymwneud â throseddwyr ifanc cyson, atafael asedau, a chanran y treialon effeithiol (achosion a restrwyd fel rhai a ymleddir sy'n dechrau ar y diwrnod a bennwyd ar gyfer y treial).

Yn gyffredinol bu cyfeiriad y teithio yn gadarnhaol yn 2006-07, ond mae'r gyfradd wella wedi cynyddu'n sylweddol mewn perthynas â rhai agweddau allweddol ar berfformiad. Er enghraifft, yn ail chwarter 2007-08 bu canran y collfarnau yn y llysoedd ynadon a Llys y Goron yn berfformiad ardderchog a chyflawnwyd pob targed o ran cyhuddo statudol, gyda'r perfformiad yn rhagori ar y cyfartaleddau cenedlaethol o dipyn. Gwellodd perfformiad sylfaenol hefyd mewn rhai agweddau ar waith a fu'n achosi problemau, megis y defnydd o'r system rheoli achosion, lle y cyflawnwyd pob targed cenedlaethol hefyd yn ail chwarter 2007-08. Gwnaed gwelliant sylweddol hefyd mewn perthynas â phrif fesurau'r cynllun Dim Tyst, Dim Cyfiawnder (o'i gymharu â'r sylfaen) dros yr un cyfnod. Mae'r gyfradd wella hon yn adlewyrchu sefydlu systemau rheoli perfformiad tynnach, gan gynnwys adroddiadau ar ganlyniadau anffafriol a sicrhau ansawdd gwaith achos yn 2007-08. Mae monitro eiriolaeth yn cael ei roi ar waith ac, os gwneir hynny'n gadarn, dylai helpu i ddyrannu treialon drwy reithgor a nodi anghenion hyfforddiant ymlaen llaw.

Mae'r cyfraniad da i gydweithio a nodwyd gan bob partner cyfiawnder troseddol wedi helpu i wella perfformiad. Mae cydberthnasau'n adeiladol iawn, ond hefyd yn gadarn lle y bo angen. Mae gan reolwyr CPS berthynas dda ag eraill sy'n gweithio yn y system cyfiawnder troseddol (CJS) a bu hyn yn fodd i weithredu'r fenter Cyfiawnder Troseddol: Syml, Cyflym, Diannod (CJSSS) a rhybuddion amodol, ymhlith prosiectau eraill ar y cyd, ochr yn ochr â datblygu trefniadau effeithiol ar gyfer cyhuddo statudol ymhellach.

Mae'r Ardal wedi gweithio'n galed i oresgyn yr anawsterau sy'n codi oherwydd y pellteroedd rhwng llysoedd, swyddfeydd a gorsafoedd heddlu, sydd weithiau yn golygu teithio dros 80 milltir o Gaerfyrddin. Cyflawnwyd hyn mewn perthynas â chanlyniadau cyhuddo, ond ni roddir cymaint o gyngor wyneb yn wyneb ag y byddai'n cael ei roi fel arall. Yn Llys y Goron, nid yw swyddogion datblygu achosion (CPOs) yn mynychu cyfarfodydd datblygiad achosion am yr un rheswm, ond gwneir gwaith effeithiol dros yr e-bost a thros y ffôn. Roedd yr Ardal yn un o'r Ardaloedd cyntaf i fabwysiadu rhyngwyneb TG integredig i'w gwneud yn bosibl i dderbyn ffeiliau electronig gan yr heddlu. O ganlyniad mae ei chyfraddau o ran treialon aneffeithiol yn Llys y Goron a'r llysoedd ynadon yn ardderchog.

Mae gan yr Ardal dîm o erlynwyr profiadol ac mae hwn yn sail i ansawdd da gwaith achos arferol a gwaith achos sensitif, a hyrwyddir o'r cychwyn cyntaf drwy bennu strategaeth achos gadarn cyn cyhuddo. Ymdrinnir â materion atodol yn gynnar er mwyn ymdrin â'r materion sy'n ymwneud â thystion a cheisiadau am dystiolaeth mewn da bryd. Ochr yn ochr ag adolygu cadarn a sicrhau datblygiad achosion heb oedi, mae hyn wedi helpu i leihau canlyniadau aflwyddiannus a chynyddu cyfran y treialon effeithiol.

Rhennir arbenigedd drwy gyfarfodydd tîm rheolaidd ac effeithiol ac mae'r uwch dîm rheoli yn sicrhau bod negeseuon allweddol yn cael eu trosglwyddo i'r staff yn ddi-oed. O ran gwaith achos, arweiniodd hyn yn uniongyrchol at welliant yn y ffordd y rheolir y broses ddatgelu a therfynau amser cadwraeth ers yr OPA diwethaf. Caiff perfformiad unigol da ei gydnabod a'i wobrwyo, ac mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan ganolog o'r weledigaeth, y gwerthoedd a'r cynllun busnes. Dangosir corfforaetholdeb ar bob lefel o reolwr yn gyffredinol, gyda rhai eithriadau prin. Mae hyn yn galluogi'r Ardal i gyflwyno newidiadau'n fewnol ac o fewn y CJS.

Fodd bynnag, cafwyd anhawster i reoli adnoddau'n effeithiol a bu gorwariant ar y gyllideb heb ei neilltuo am y pum mlynedd diwethaf. Gwelwyd gwell defnydd o asiantau na'r gyfradd genedlaethol a defnyddiwyd patrymau gweithio hyblyg i wella perfformiad ariannol, ond bydd Dyfed Powys yn gorwario unwaith eto yn 2007-08. Mae'r agwedd hon ar berfformiad yn achos pryder.

**Cyfeiriad teithio**

Mae'r cyfeiriad cyffredinol yn un o wella yn enwedig o ran gwneud penderfyniadau cyn cyhuddo, achosion sensitif, datgelu, terfynau amser cadwraeth a rheoli perfformiad i wella, y mae oll wedi cael gradd uwch na'r hyn a gawsant yn yr OPA diwethaf. Mae perfformiad wedi gwaethygu o ran y gwasanaeth a roddir i ddioddefwyr a thystion a sicrhau hyder y gymuned, lle nad oes gan yr Ardal gofnodion dogfennol ar gyfer rhannau o'r gwaith a'r gwaith gwerthuso y mae wedi'i wneud. Y pryder mwyaf yw'r ffordd y rheolir adnoddau ac mae hyn wedi cael effaith andwyol iawn ar raddio'r perfformiad cyffredinol.

Yng ngoleuni ein canfyddiadau, mae'r perfformiad cyffredinol yn **WEDDOL**.

| **ASESIAD CYFFREDINOL** | | **GWEDDOL** | |
|---|---|---|---|

| **Agweddau critigol** | **Lefel yr asesiad** | | |
|---|---|---|---|
| | **OPA 2005** | **OPA 2007** | **Cyfeiriad teithio** |
| Gwneud penderfyniadau cyn cyhuddo | Gwael | **Da** | **Wedi gwella** |
| Sicrhau canlyniadau llwyddiannus yn y llysoedd ynadon | Da | **Da** | **Sefydlog** |
| Sicrhau canlyniadau llwyddiannus yn Llys y Goron | Da | **Da** | **Sefydlog** |
| Y gwasanaeth i ddioddefwyr a thystion | Da | **Gweddol** | **Wedi gwaethygu** |
| Arweinyddiaeth | Da | **Da** | **Sefydlog** |
| **Lefel gyffredinol yr asesiad critigol** | | **Da** | |
| Datblygu achosion yn y llys | Da | **Da** | **Sefydlog** |
| Achosion sensitif a throseddau casineb | Gweddol | **Da** | **Wedi gwella** |
| Datgelu | Gweddol | **Da** | **Wedi gwella** |
| Terfynau amser cadwraeth | Gweddol | **Da** | **Wedi gwella** |
| Cyflwyno newid | Gweddol | **Gweddol** | **Sefydlog** |
| Rheoli adnoddau | Gwael | **Gwael** | **Sefydlog** |
| Rheoli perfformiad er mwyn gwella | Gweddol | **Gweddol** | **Wedi gwella**[4] |
| Sicrhau hyder y gymuned | Da | **Gweddol** | **Wedi gwaethygu** |
| **ASESIAD CYFFREDINOL** | Gweddol | **GWEDDOL** | |

4 Er nad yw'r broses o asesu'r agwedd hon wedi newid, cafwyd gwelliant sylweddol o ran ystod y perfformiad a gwmpaswyd gan y band.

# D AGWEDDAU DIFFINIOL

| 1 GWNEUD PENDERFYNIADAU CYN CYHUDDO: RHEOLI A GWIREDDU'R MANTEISION | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Gwael | **Da** | **Wedi gwella** |

**1A Mae'r Ardal yn sicrhau bod y broses gwneud penderfyniadau cyn cyhuddo yn gweithredu'n effeithiol yng nghanolfannau cyhuddo'r heddlu a chaiff ei dogfennu a'i chofnodi'n gywir**

- Symudodd Dyfed Powys i gyhuddo statudol ym mis Chwefror 2006. Roedd yr adolygiad ôl-weithredol (a gynhaliwyd ym mis Medi 2006) yn gadarnhaol ac ers hynny mae'r Ardal wedi cymryd camau i ymdrin â'r holl bwyntiau a restrwyd ar y cynllun gweithredu a bennwyd gan y tîm cyhuddo cenedlaethol. Lluniwyd cytundeb darparu gwasanaeth â'r heddlu a datryswyd y problemau o ran swyddfeydd a nodwyd yn yr OPA diwethaf. Ar hyn o bryd ceir trefniadau da ar gyfer gwneud penderfyniadau cyn cyhuddo (PCDs).

- Rhoddir cyngor wyneb yn wyneb i'r heddlu yn ystod oriau gwaith mewn 'cymorthfeydd' cyhuddo yn Hwlffordd, Aberystwyth, Caerfyrddin, Llanelli ac Aberhonddu, yn ôl systemau o apwyntiadau a drefnir yn lleol sydd bellach ar waith yn y pum lleoliad. Ynghyd â chymorth wrth gefn dros y ffôn gan y tair swyddfa CPS, mae hyn yn cynnig yr hyblygrwydd i ymdrin ag achosion cadwraeth brys a chyflenwi dros amser cinio lle y bo angen.

- Yn 2006-07, dim ond 36.7% o ymgynghoriadau PCD oedd yn rhai wyneb yn wyneb, o gymharu â'r ffigur cenedlaethol 63.5%. Cymerwyd camau i fynd i'r afael â'r broblem hon ac mae perfformiad wedi gwella i 53.7% yn y pum mis cyntaf o 2007-08, o gymharu â 71.8% yn genedlaethol. Fodd bynnag, bydd yr Ardal yn cael anhawster i roi cyfran uchel o gyngor wyneb yn wyneb oherwydd cyfyngiadau ei daearyddiaeth unigryw, sy'n golygu bod hanner tir Cymru yng ngofal pum cymhorthfa gyhuddo yn unig ac mae llawer o orsafoedd heddlu dros awr i ffwrdd o'r gymhorthfa agosaf.

- Mae trefniadau wedi'u dogfennu, y cytunwyd arnynt ar gyfer darparu PCD mewn achosion difrifol a chymhleth, a llunnir cynllun rheoli achos difrifol ar y cyd ar eu cyfer ar unwaith. Dyrennir ceisiadau am gyngor o'r fath gan Bennaeth yr Uned Dreialon yn ôl system benodol.

- Goruchwylir y broses o du'r Heddlu gan y rhingylliaid sy'n gyfrifol am yr unedau cymorth rhanbarthol. Er mwyn eu gwneud yn fwy effeithiol maent wedi cael eu hail-leoli yn yr ystafelloedd cyhuddo, a hynny er mwyn lleihau nifer yr achosion a gyfeirir yn amhriodol am gyngor cyn cyhuddo a sicrhau bod pob achos perthnasol yn cael ei gyflwyno. Mae'r CPS wedi gweithio'n ddiweddar gyda goruchwylwyr yn yr heddlu er mwyn sicrhau mai dim ond pan fydd yn briodol y rhoddir cyngor cyn cyhuddo ar achosion o drais yn y cartref. Ystyrir pob cais amhriodol am gyngor yng nghyfarfodydd Rheoli Perfformiad rhanbarthol misol y Tîm Erlyn (PTPM) a chyflëir pwyntiau dysgu pellach i'r goruchwylwyr yn yr heddlu, sydd wedi cael eu hannog gan yr Ardal i gydweithio â rhingylliaid cadwraeth er mwyn sicrhau bod ymgynghori cyn cyhuddo ar bob ffeil berthnasol. Dengys ein gwiriadau 'realiti' fod pob un o'r 30 achos wedi cael eu cyfeirio'n briodol am benderfyniad cyn cyhuddo.

- Mae trefniadau clir i'r heddlu herio penderfyniadau cyn cyhuddo ac mae Pennaeth yr Uned yn ystyried achosion a drosglwyddir yn ofalus. Fodd bynnag, mae achosion o'r fath yn brin erbyn hyn gan fod yr apwyntiadau 60 munud newydd yn rhoi amser am ddeialog manwl a datrys anghydfod yn anffurfiol rhwng yr erlynydd ar ddyletswydd a'r swyddog ymchwilio. Mae hyn, yn ei dro, wedi arwain at ddatblygu ethos cydweithio cryfach ar lefel weithredol.

- Mae goruchwylwyr yr heddlu yn monitro cydymffurfiaeth yr heddlu â'r cynlluniau gweithredu cyn cyhuddo yn barhaus, a chaiff pob achos lle penderfynwyd peidio â chymryd camau pellach ei adolygu'n fisol yng nghyfarfodydd rheoli ansawdd y Tîm Erlyn er mwyn nodi achosion lle na roddwyd y cynlluniau gweithredu ar waith. Adolygir effeithiolrwydd cynllunio camau gweithredu ar y cyd hefyd ar lefel strategol gan y Grŵp Llywio Cyngor Cyn Cyhuddo. Lluniwyd strategaeth ar y cyd i sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf, lle mae goruchwylwyr yr heddlu yn rhoi cyngor ymchwilio cychwynnol i swyddogion, a gofynnir i erlynwyr ar ddyletswydd gyfiawnhau'r angen am gynllun gweithredu weithiau. Dylai hyn helpu i leihau canran yr achosion lle mae angen mwy nag un ymgynghoriad a lleihau'r ganran lle cynghorir peidio â chymryd camau pellach.

- Mae systemau ar y cyd ar gyfer rheoli mechnïaeth, gan gynnwys adolygiad misol o lwyth achosion PCD yng nghyfarfodydd rheoli ansawdd y Tîm Erlyn. Mae'r llwyth achosion wedi bod yn lleihau'n raddol yn 2007-08, sy'n awgrymu bod llai o achosion yn aros ar y system am na ddechreuwyd gweithrediadau neu am na chymerwyd camau angenrheidiol. Fodd bynnag dangosodd ein gwiriadau realiti fod nifer o hen achosion PCD ar y system rheoli achosion (CMS), felly mae angen i Benaethiaid Uned sicrhau bod y system yn cael ei defnyddio'n effeithiol fel arf rheoli mechnïaeth. Hefyd, mae angen cyd-amseru ymgynghoriadau dilynol ar benderfyniadau cyn cyhuddo ag amseroedd mechnïo er mwyn atal ailfechnïo diangen.

- Yn 2006-07, dim ond 43.4% o ymgynghoriadau a gofnodwyd ar y system rheoli achosion, o gymharu â'r targed cenedlaethol o 90.0%. Cadarnhawyd y perfformiad gwael hwn gan ein gwiriadau realiti a ddangosodd mai dim ond mewn 14 o'r 20 o achosion y cafodd ffurflen electronig MG3, yr arnodir penderfyniadau cyn cyhuddo arni, ei chofnodi'n gywir ar y system rheoli achosion (roedd pob un wedi'i therfynu ym mis Awst/Medi 2007, gyda'r rhan fwyaf yn cael cyngor cyn cyhuddo yn 2007-08). Yn ddiweddar mae'r Ardal wedi gweithio'n galed i sicrhau bod pob erlynydd ar ddyletswydd yn cofnodi ymgynghoriadau'n briodol. Mae hyn wedi arwain at welliant sylweddol mewn perfformiad ac yn y chwe mis cyntaf o 2007-08 roedd cofnodi ymgynghoriadau PCD yn gyson yn rhagori ar y targed. Mae achosion PCD yn cael eu terfynu'n gywir ar y system rheoli achosion a diffinnir canlyniadau'n gywir.

- Mae'r Hyrwyddwr Cyhuddo mewn cysylltiad rheolaidd â swyddogion cydlynu CPS Direct a gall gyfleu pwyntiau a godwyd yn y Grŵp Llywio Cyngor Cyn Cyhuddo a chyfarfodydd rhanbarthol rheoli ansawdd y Tîm Erlyn. Maent hefyd yn monitro canlyniadau CPS Direct er mwyn nodi unrhyw dueddiadau, fodd bynnag erys rhai problemau i'w datrys.

- Cyflwynwyd rhybuddion amodol drwy'r Ardal gyfan ar yr un pryd, ym mis Rhagfyr 2006. Rhoddwyd hyfforddiant ar y cyd i oruchwylwyr yr heddlu ac erlynwyr ar ddyletswydd ac erbyn diwedd mis Tachwedd 2007 rhoddwyd 100 o rybuddion amodol.

## 1B Mae'r Ardal yn sicrhau bod cyngor a phenderfyniadau cyn cyhuddo yn unol â chanllawiau'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron, safonau cyhuddo a chanllawiau polisi

- Mae pob erlynydd ar ddyletswydd wedi cwblhau hyfforddiant y Rhaglen i Erlynwyr Rhagweithiol a chaiff pob un ei arfarnu yn ôl ansawdd y cyngor cyn cyhuddo a roddir. Caiff arferion da eu lledaenu drwy gyfarfodydd misol tîm y cyfreithwyr a thrwy'r e-bost. Mae'r CCP gweithredol yn anfon e-bost misol yn rhestru'r pwyntiau dysgu a nodwyd o'i adolygiad o ganlyniadau aflwyddiannus diweddar ac mae hyn yn aml yn cynnwys materion cyn cyhuddo. Caiff adroddiadau ar ganlyniad anffafriol eu rhoi i'r cyfreithwyr sy'n cyhuddo gyda'r pwyntiau dysgu a nodwyd. Mae'r heddlu yn gadarnhaol iawn am ansawdd y penderfyniadau cyhuddo ac yn ystod ein gwiriadau realiti dim ond mewn un achos allan o 30 y nodwyd bod y penderfyniad i gyhuddo yn anghywir.

- Mae'r CPS wedi trefnu apwyntiadau awr yn y system apwyntiadau newydd i roi cyfle i erlynwyr ar ddyletswydd ystyried pob agwedd ar strategaeth yr achos gan gynnwys materion o ran tystion, cymeriad drwg ac achlust, datgelu a chaffael asedau. Cadarnhaodd ein gwiriadau realiti y caiff y materion hyn eu hystyried a'u dogfennu a bod erlynwyr ar ddyletswydd yn darparu cynlluniau gweithredu llawn a phenodol i'r heddlu ar gyfer ymchwiliad pellach a darparu tystiolaeth ar ôl cyhuddo.

- Caiff ansawdd penderfyniadau a'r cyngor ar gyhuddo ei fonitro gan Benaethiaid Uned sy'n hapsamplu ffurflenni MG3 a'u dadansoddi yn erbyn y ffeil wythnosol. Mae hyn yn ychwanegol at wiriadau misol Sicrhau Ansawdd Gwaith Achos (CQA) sy'n datgelu perfformiad tebyg i'r hyn a nodwyd yn ein gwiriadau realiti. I bob canlyniad anffafriol mae'r penderfyniad i gyhuddo yn cael ei ystyried gan Benaethiaid Uned a'r CCP gweithredol. Caiff penderfyniadau i beidio â chymryd camau pellach ac i roi rhybudd amodol eu harchwilio ar y cyd gan Benaethiaid Uned gyda rheolwyr yr heddlu yng nghyfarfodydd rheoli ansawdd y Tîm Erlyn, drwy gyfeirio at restr sy'n dangos y rhesymau dros y penderfyniad ym mhob achos. Mae'r dull gweithredu hwn yn effeithiol mewn rhai rhanbarthau lle nodir rhesymau manwl, ond heb fod cystal mewn rhanbarthau eraill lle cynhwysir y ffeithiau noeth yn unig.

## 1C Gall yr Ardal ddangos manteision ei chyfraniad at y broses o wneud penderfyniadau cyn cyhuddo

| | Achosion yn y llysoedd ynadon | | | | Achosion yn Llys y Goron | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Targed cenedlaethol Mawrth 2007 | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2005-06 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 | Targed cenedlaethol Mawrth 2007 | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2005-06 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
| Cyfradd dirwyn i ben | 11.0% | 15.7% | 11.9% | 10.7% | 11.0% | 13.1% | 7.2% | 6.4% |
| Cyfradd pledio'n euog | 52.0% | 69.2% | 69.5% | 71.4% | 68.0% | 66.5% | 59.0% | 64.3% |
| Cyfradd athreulio | 31.0% | 22.0% | 19.4% | 18.1% | 23.0% | 22.2% | 28.9% | 22.7% |

- Mae canran yr achosion PCD a arweiniodd at gollfarn wedi bod yn cynyddu'n gyson ers 2005-06. Yn 2006-07 cyflawnodd yr Ardal y targed cenedlaethol ym mhob un o'r chwe agwedd ar berfformiad ac roedd yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol ym mhob ple euog ac eithrio yn Llys y Goron. Yn y chwe mis cyntaf o 2007-08 cafwyd gwelliant pellach a rhagorwyd ar y cyfartaledd a'r targedau cenedlaethol ym mhob un o'r chwe dangosydd.

- Mae pecyn perfformiad ar y cyd yr Ardal yn cynnwys dadansoddiad rhanbarthol o bob agwedd ar berfformiad PCD a gwireddu ei fanteision. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad o gyfran yr achosion lle na chymerir camau pellach, cyfraddau pledio'n euog ac athreulio gan ganolfan y llys, achosion 'a fethwyd' a chyfraddau datrys â chosbau. Caiff y pecyn ei ystyried yn fanwl ym mhob un o gyfarfodydd rheoli ansawdd y Tîm Ansawdd ac yn fewnol yng nghyfarfod misol Tîm Rheoli'r Ardal (AMT).

- Cynhelir cyfarfodydd rheoli ansawdd y Tîm Erlyn yn rheolaidd a daw nifer dda o staff ar lefel briodol, gyda chofnodion clir a chynhwysfawr. Gweithredir ar faterion gan y grŵp Perfformiad Rhanbarthol, sydd yn ei dro yn bwydo i mewn i grŵp Perfformiad Ardal y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol (LCJB). Mae grŵp llywio'r PCA, a fynychir gan y CCP gweithredol a Phrif Gwnstabl yr heddlu, yn goruchwylio'r dadansoddiad ar y cyd o'r trefniadau cyhuddo. Yn ddiweddar cymeradwyodd newid yn y ffordd y trefnir erlynwyr ar ddyletswydd er mwyn unioni anghydbwysedd o ran adnoddau a nodwyd yn Llanelli lle roedd angen cymhorthfa ychwanegol. Mae Heddlu Dyfed Powys yn fodlon iawn ar y lefel o gydweithio ac mae ethos y 'tîm erlyn' bellach wedi ymwreiddio'n lleol ar lefel yr Ardal.

- Mae Penaethiaid Uned yn bwydo gwybodaeth o gyfarfodydd rheoli ansawdd y Tîm Erlyn a'r grŵp Perfformiad Rhanbarthol i'w cyfreithwyr a'u timau gweinyddol ac mae rheolwyr yr heddlu yn ei bwydo i swyddogion a staff sifil.

| 2 SICRHAU CANLYNIADAU LLWYDDIANNUS YN Y LLYSOEDD YNADON | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Da | **Gweddol** | **Sefydlog** |

## 2A Mae canlyniadau llwyddiannus yn cynyddu

| Sicrhau canlyniadau llwyddiannus yn y llysoedd ynadon | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|
| Dirwyn i ben ac achosion o rwymo | 10.8% | 12.0% |
| Dim achos i'w ateb | 0.2% | 0.1% |
| Gwrthodiad ar ôl treial | 1.9% | 2.3% |
| Traddodebau a ryddhawyd | 0.2% | 0.0003% |
| Gwarantau | 2.6% | 1.5% |
| Cyfradd gollfarnu gyffredinol | 84.3% | 84.0% |

- Mae'r gyfradd gollfarnu gyffredinol, sef 84.0% yn parhau ar yr un lefel ag y bu ar adeg yr OPA diwethaf (2004-05),ond mae perfformiad wedi gwaethygu ychydig ers 2005-06 sef 84.7%. Fodd bynnag, mae'r cyfartaledd cenedlaethol wedi gwella o 80.8% yn 2004-05 i 84.3% yn 2006-07 ac erbyn hyn mae'r Ardal yn perfformio ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o ran canlyniadau llwyddiannus. Mae'r gyfradd gollfarnu wedi gwella ychydig yn hanner cyntaf 2007-08 i 84.7%, ond erys yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 85.3%.

- Erys y lefel o draddodebau a ryddhawyd yn isel iawn gyda dim ond tri yn 2006-07, sydd dipyn yn is na'r 0.1% o'r llwyth achosion, o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 0.2%. Caiff pob traddodeb a ryddhawyd ei hadolygu gan Benaethiaid yr Uned, y CCP gweithredol a, lle y bo'n briodol, caiff achosion eu hailgychwyn pan fydd yr holl dystiolaeth wedi dod i law.

- Mae nifer y canfyddiadau lle nad oes achos i'w ateb wedi gostwng ers yr OPA diwethaf. Ceir canran o 0.1%, sy'n well na'r cyfartaledd cenedlaethol o 0.2%. Mae nifer y rhyddfarnau ar ôl treial wedi cynyddu ychydig yn ystod y tair blynedd diwethaf o 1.6% yn 2004-05 (cyfartaledd cenedlaethol 1.5%) a 2005-06 (yn genedlaethol 1.7%) i 2.3% yn 2006-07 (2.0%).

- Gwellodd y gyfradd dirwyn i ben gyffredinol o 12.3% yn 2004-05 i 12.0% yn 2006-07 ond erys yn is na'r ffigur cenedlaethol sef 10.8%. Lle rhoddir cyngor cyn cyhuddo mewn perthynas ag achos mae angen cymeradwyaeth Pennaeth Uned cyn penderfynu dirwyn yr achos hwnnw i ben a llofnodir pob hysbysiad dirwyn i ben ganddynt. Lle rhoddwyd cyngor cyn cyhuddo mewn perthynas ag achos mae'n ofynnol i'r cyfreithiwr adolygu ei drafod â'r cyfreithiwr sy'n cyhuddo cyn y penderfynir dirwyn yr achos i ben. Mae'r Ardal yn sicrhau bod hysbysiadau dirwyn i ben a anfonir at yr heddlu yn rhoi esboniadau manwl am y penderfyniad. Ystyrir hysbysiadau ar y cyd â'r heddlu yng nghyfarfodydd rheoli ansawdd y Tîm Erlyn a gynhelir ym mhob uned.

- Mae Penaethiaid Uned yn cynnal adolygiad llawn o bob canlyniad aflwyddiannus gan gynnwys chwilio am dueddiadau. Ystyrir y canlyniadau hynny yng nghyfarfodydd rheoli ansawdd y Tîm Erlyn hefyd. Roedd nifer yr achosion lle nad oedd achos i'w ateb, traddodebau a ryddhawyd a rhyddfarnau ar ôl treial yn 2006-07 yn llai na 260 drwy'r Ardal gyfan. Mae Grŵp Perfformiad rhyngasiantaethol yr Ardal yn dadansoddi pob treial chwâl ac aneffeithiol lle gwelir bod bai ar un o'r asiantaethau, gan gynnwys y CPS. Dosberthir gwersi priodol i gyfreithwyr gan y CCP gweithredol sy'n mynychu'r cyfarfodydd hyn.

- Mae'r targed ar gyfer troseddau y caiff troseddwyr eu dwyn o flaen eu gwell amdanynt wedi'i rannu ag asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill ac mae'r CPS yn cyfrannu at hyn drwy sicrhau niferoedd bach o achosion sy'n cael eu dirwyn i ben ac achosion lle ceir canlyniadau aflwyddiannus. Dengys data ar gyfer 2006-07 i'r Ardal ragori ar y targed o 10,655 o droseddau, gan gyflawni 13,978. O'r cyfanswm hwn roedd 42.1% o ganlyniad i gollfarnau (cyfartaledd cenedlaethol 48.8%).

- Roedd perfformiad o ran amseroldeb ymdrin ag achosion a oedd yn ymwneud â throseddwyr ifanc cyson yn gyson ardderchog. Cyflawnwyd y targed o 71 diwrnod drwy gydol 2006. Y cyfnod o arestio i ddedfrydu yn y 12 mis hyd at fis Rhagfyr 2006 oedd 49 diwrnod ar gyfartaledd sef y gorau yn y wlad (cyfartaledd cenedlaethol 72). Mae ymrwymiad amlwg i gydweithio rhwng asiantaethau.

- Caiff gwersi a ddysgwyd eu cyfleu i'r staff mewn cyfarfodydd tîm neu drwy'r e-bost. Lle nodir problemau mewn perthynas ag aelod penodol o staff ymdrinnir â hwy yn unigol. Mae gan Benaethiaid Uned bolisi 'drws agored' ac maent yn cyfathrebu'n anffurfiol â staff am berfformiad a materion eraill.

## 2B Mae dull effeithiol o reoli achosion a gwneud penderfyniadau yn golygu y gellir datblygu achosion ym mhob ymddangosiad llys

| Cyfraddau treial | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|
| Cyfradd treialon effeithiol | 43.8% | 64.9% |
| Cyfradd treialon chwâl | 37.3% | 22.4% |
| Cyfradd treialon aneffeithiol | 18.9% | 12.9% |
| Cyfradd treialon a ddirymwyd | 22.5% | 18.2% |

- Caiff safon ffeiliau'r heddlu ei monitro cyn ac ar ôl cyhuddo er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Llawlyfr Cyfarwyddyd. Cyn cyhuddo nodir unrhyw ddiffygion gan erlynwyr ar ddyletswydd, a gyfarwyddir i beidio ag awdurdodi cyhuddiad oni bai bod yr holl dystiolaeth angenrheidiol wedi dod i law. Fel rhan o'r gwaith o baratoi ar gyfer cyflwyno'r fenter Cyfiawnder Troseddol: Syml, Cyflym, Diannod (CJSSS), gweithiodd yr Ardal yn agos gyda Rheolwr Prosiect CJSSS yr heddlu i ddatblygu rhestr o gynnwys ffeil safonol. Caiff pob ffeil ei hadolygu gan gyfreithwyr pan fydd y swyddfa yn ei derbyn ac os gwelir bod unrhyw beth ar goll anfonir ffacs at yr heddlu ar unwaith.

- Cynhelir adolygiadau cychwynnol o ffeiliau fel rhan o gwblhau ffurflen MG3 ar adeg y PCD. Caiff ffeiliau nad ydynt yn mynd drwy PCD eu hadolygu gan gyfreithiwr yn union ar ôl iddynt ddod i law. Mae Penaethiaid Uned yn cynnal adolygiadau CQA rheolaidd ac yn rhoi adborth fel y bo'n briodol. Mae rheolwyr gweinyddol yr Uned Cyfiawnder Troseddol yn cael adborth gan y rhai sy'n gyfrifol am

nodi ffeiliau sy'n cael eu dychwelyd o'r llys ac yn codi unrhyw faterion o ran arnodiadau gyda Phenaethiaid Uned, Rheolwr Busnes yr Ardal (ABM) neu gyfreithwyr fel y bo'n briodol.

- Mae trefniadau ar gyfer sicrhau datblygiad achosion wedi gwella ers i'r gwaith paratoi ar gyfer CJSSS gael ei gyflwyno. Mae adborth gan bartneriaid yn awgrymu bod y CPS wedi troi perfformiad gwael cyn hyn yn berfformiad da erbyn hyn. Mae wedi gweithio'n agos gyda'r heddlu a Gwasanaeth Llysoedd EM i gyflwyno system effeithiol ar gyfer sicrhau datblygiad achosion.

- Cyflwynwyd CJSSS yn Nyfed Powys rhwng mis Awst a mis Rhagfyr 2007. Mae'n rhy gynnar i asesu a yw ei gweithredu wedi bod yn llwyddiannus, ond mae'r ffigurau cychwynnol yn galonogol, er enghraifft mae gohiriadau lle na chofnodwyd pleon yn brin iawn erbyn hyn. Fodd bynnag erys problemau o hyd o ran presenoldeb diffynyddion yn y llys, gyda thua 9% o restriadau cyntaf yn arwain at warant arestio.

- Mae gan ffeiliau achosion ieuenctid gloriau melyn er mwyn gwahaniaethu rhyngddynt hwy a gwaith arall. Caiff pob achos PIC a throseddwr ifanc ei fonitro a'i ddadansoddi yng nghyfarfodydd y Grŵp Perfformiad Rhanbarthol a fynychir gan Reolwr Rhanbarthol yr Heddlu, Penaethiaid Uned y CPS a Chynghorydd Cyfreithiol y Gwasanaeth Llysoedd dros ranbarth yr heddlu dan sylw. Mae protocolau ar gyfer ymdrin ag achosion ieuenctid yn y llysoedd ynadon ac yn Llys y Goron. Erbyn mis Rhagfyr 2006, y gyfradd pleon euog cychwynnol mewn achosion ieuenctid o fewn y terfynau amser targed oedd 94% (cyfartaledd cenedlaethol 89%) ac erbyn mis Mawrth 2007 roedd wedi gwella i 97% (88%).

- Mae perfformiad o ran treialon chwâl a threialon aneffeithiol yn ardderchog, er iddo ddirywio ers yr OPA diwethaf. Mae'r gyfradd treialon effeithiol, sef 64.9%, yn well na'r gyfradd genedlaethol o 43.8% ac yn welliant bach o'i chymharu â'r gyfradd o 64.6%,yn 2005-06 (cyfartaledd cenedlaethol 42.1%). Mae'r gyfradd treialon effeithiol, sef 12.9%, yn well na'r ffigur cenedlaethol (18.9%) ac yn welliant bach o'i chymharu â'r gyfradd o 21.8%,yn 2005-06 (cyfartaledd cenedlaethol 36.7%). Y gyfradd treialon chwâl yw 22.4% (37.3% yn genedlaethol) ac mae wedi cynyddu'n sylweddol o 13.6% yn 2005-06 (21.2%). Mae'r gyfradd treialon a ddirymwyd, sef 18.2%, yn well na'r ffigur cenedlaethol o 22.5% ond mae wedi cynyddu ychydig ers 2005-06 pan gafwyd cyfradd o 16.5% (cyfartaledd cenedlaethol 21.2%). Y prif reswm dros y cynnydd mewn treialon chwâl yw pleon euog hwyr i'r cyhuddiadau gwreiddiol ac mae'n adlewyrchu cadernid y penderfyniadau cyhuddo gwreiddiol.

- Pan fydd unrhyw dreial yn chwalu neu'n mynd yn aneffeithiol, mae cynghorydd cyfreithiol y llys, yr erlynydd a chyfreithiwr yr amddiffyniad yn cwblhau ffurflen yn nodi rhesymau dros y methiant. Cyflwynir y ffurflen honno drwy'r Gwasanaeth Llysoedd i Swyddog Perfformiad y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol sy'n coladu ffurflenni am dreialon chwâl ac aneffeithiol dros fis, sydd wedi yn cael eu hystyried yng nghyfarfodydd Grŵp Perfformiad yr Ardal. Dadansoddir y rhesymau dros dreialon chwâl ac aneffeithiol a gofynnir i asiantaethau cyfiawnder troseddol am adroddiadau lle y bo'n briodol. Pan fydd gwersi i'w dysgu ymdrinnir â hwy ar sail unigol neu fe'u tynnir at sylw'r asiantaeth gyfrifol.

- Mae'r defnydd o'r system rheoli achosion i gofnodi digwyddiadau yn gwella. Erbyn mis Ebrill 2006 cofnodwyd bod 5.9% o achosion llysoedd ynadon wedi'u hadolygu, erbyn mis Mawrth 2007 roedd y ffigur hwn wedi cynyddu i 58.2% a thros y flwyddyn gyfan cafwyd cyfartaledd o 60.5%, gydag amrywiadau misol sylweddol. Yn 2007-08 mae'r defnydd o'r system rheoli achosion ar gyfer adolygiadau llysoedd ynadon wedi parhau i wella ac yn yr ail chwarter roedd wedi cyrraedd 82.3%. Mae angen gwella amseroldeb terfynu achosion a chofnodi canlyniadau gwrandawiadau ar y system rheoli achosion. Yn 2006-07 dim ond 52.9% o ganlyniadau gwrandawiadau a 50.8% o achosion a derfynwyd oedd wedi'u cofnodi o fewn diwrnod i'r gwrandawiad, er y gall ystyriaethau daearyddol gyfyngu ar berfformiad.

| 3 SICRHAU CANLYNIADAU LLWYDDIANNUS YN LLYS Y GORON | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Da | **Da** | **Sefydlog** |

### 3A Mae canlyniadau llwyddiannus yn cynyddu

| Canlyniadau achosion yn Llys y Goron | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|
| Rhyddfarnau dan orchymyn barnwr | 13.1% | 8.4% |
| Rhyddfarnau dan gyfarwyddyd barnwr | 1.4% | 3.0% |
| Rhyddfarnau ar ôl treial | 6.5% | 9.9% |
| Gwarantau | 1.3% | Dd/G |
| Cyfradd gollfarnu gyffredinol | 77.7% | 78.7% |

- Caiff cyfran helaeth o achosion Llys y Goron sy'n codi yn Nyfed Powys eu gwrando mewn canolfannau llys y tu allan i'r Ardal, sy'n beth anarferol o'i chymharu ag Ardaloedd CPS eraill. Mae bron pob un o'r achosion yr ymdrinnir â hwy gan yr Uned Dreialon yn cael eu gwrando yn Llys y Goron yn Abertawe, yn Ne Cymru, a dim ond nifer fach sy'n cael eu gwrando yn Llys y Goron yng Nghaerfyrddin sy'n eistedd o bryd i'w gilydd am nifer o wythnosau bob blwyddyn. Caiff y rhai yr ymdrinnir â hwy gan uned gyfunol y Drenewydd eu gwrando yn Llys y Goron yn yr Wyddgrug (yng Ngogledd Cymru) os ydynt yn codi yng ngogledd Powys ac ym Merthyr Tudful (De Cymru) os ydynt yn codi yn y de, er bod y rhain yn cael eu gwrando yng Nghaerdydd (hefyd yn Ne Cymru) ar hyn o bryd tra bod adeilad y llys yn cael ei adnewyddu.

- Mae cyfran yr achosion yn Llys y Goron sy'n arwain at gollfarn wedi cynyddu'n raddol o 69.4% yn 2004-05 i 83.7% yn ail chwarter 2007-08. Dros yr un cyfnod mae'r gyfradd gyhuddo ar gyfer achosion cyngor cyn cyhuddo wedi cynyddu o 71.1% i 82.6%.

- Achoswyd y gwelliant hwn gan ostyngiad sylweddol yng nghyfran y rhyddfarnau dan orchymyn barnwr neu gan reithgor ers 2004-05. Er bod cynnydd bach yng nghyfran y rhyddfarnau dan gyfarwyddyd barnwr dros yr un cyfnod, nid yw hyn wedi cael fawr ddim effaith ar y gyfradd canlyniadau llwyddiannus oherwydd y niferoedd cymharol fach dan sylw. Bu gwelliant diweddar hefyd, gyda dim ond dau yn y chwe mis cyntaf o 2007-08.

- Caiff pob achos a derfynir yn Llys y Goron ei awdurdodi gan Bennaeth yr Uned Dreialon a dengys ein gwiriadau realiti fod y system rheoli achosion wedi'i harnodi i gadarnhau hyn. Mae'r gyfradd well ar gyfer rhyddfarnau dan orchymyn barnwr yn awgrymu bod y penderfyniad i derfynu achos yn briodol ac, unwaith eto, cadarnheir hyn gan ein gwiriadau realiti a'r adborth gan ffynonellau allanol.

- Mae gan yr Ardal dîm cyfreithiol profiadol bach sy'n golygu bod goruchwylio ac adborth anffurfiol ar gael yn hawdd gan arbenigwyr a Phennaeth yr Uned. Eto i gyd, caiff adroddiadau ar ganlyniadau

anffafriol eu cwblhau a'u hystyried wyneb yn wyneb gan y cyfreithiwr adolygu a Phennaeth yr Uned. Yna caiff pob adroddiad ar ganlyniad anffafriol ei grynhoi ar gyfer cyfarfodydd PTPM gyda'r heddlu, a Grwpiau Perfformiad Rhanbarthol a Grŵp Perfformiad yr Ardal a fynychir gan y Gwasanaeth Llysoedd. Mae'r CCP gweithredol yn adolygu pob adroddiad ar ganlyniad anffafriol ac yn anfon e-bost misol at bob cyfreithiwr yn nodi tueddiadau, materion a phwyntiau dysgu, a thrafodir materion cyfreithiol mewn cyfarfodydd rhwng Eiriolwr y Llys Uwch a chyfreithwyr yr Uned Dreialon.

- Yn 2006-07 sicrhaodd yr Ardal 35 o orchmynion atafaelu asedau, sydd dipyn yn uwch na'r targed lleol o 20, fodd bynnag roedd yn brin o'r targed gwerth o £338,000 o £85,000. Yn 2007-08 hyd yma mae'n rhagori o dipyn ar y targed o ran cyfanswm gwerth a atafaelwyd, a nifer y gorchmynion a sicrhawyd. Er y bu llithriant o ran yr hyfforddiant arfaethedig ar y cyd ar Ddeddf Elw Troseddau (POCA), mae'r gwelliant hwn o ganlyniad i gydweithio effeithiol â'r heddlu sydd wedi'i gydlynu gan swyddog arweiniol POCA y CPS a'i swyddog cyfatebol yn yr heddlu, gyda'r ddau yn mynychu'r cyfarfodydd rheolaidd ar y cyd â'r CCP gweithredol. Arweinir gwaith gorfodi gan y Gwasanaeth Llysoedd ond mae hyrwyddwr yr Ardal yn cyfrannu gyda swyddogion yr heddlu.

## 3B Mae dull effeithiol o reoli achosion a gwneud penderfyniadau yn golygu y gellir datblygu achosion ym mhob ymddangosiad llys

| Cyfraddau treial | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---:|---:|
| Cyfradd treialon effeithiol | 48.2% | 70.0% |
| Cyfradd treialon chwâl | 39.5% | 24.7% |
| Cyfradd treialon aneffeithiol | 12.4% | 5.3% |

- Dengys ein gwiriadau realiti fod achosion Llys y Goron yn cael eu paratoi'n amserol a bod bron bob amser yn effeithiol ar yr ymgais gyntaf. Mae ansawdd y gwaith adolygu yn dda a chymerir camau yn ddi-oed lle y bo modd. Ceir system ysgrifenedig ar gyfer sicrhau y caiff y prawf 'trothwy' ar gyfer penderfyniadau cyhuddo ei adolygu yn erbyn prawf llawn Cod Erlynwyr y Goron cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Fodd bynnag, caiff ditiadau eu diwygio'n aml yn y gwrandawiad ple a rheoli achos ac ni all eiriolwyr bob amser roi penderfyniad clir ar bleon gwahanol ar y cyfle cyntaf posibl. Mae arnodi ffeiliau fel arfer yn cydymffurfio â safon genedlaethol y CPS a nodir camau a gymerwyd, ond weithiau hepgorir statws remand y diffynnydd.

- Mae pob asiantaeth CJS yn gweithio'n llwyddiannus yn ôl terfynau amser byrrach mewn perthynas ag achosion a wrandewir yn Llys y Goron, Abertawe ac mae gan swyddogion datblygu achosion y CPS yn yr unedau yng Nghaerfyrddin a'r Drenewydd berthynas dda â swyddogion CJS cyfatebol. Drwy gytundeb nid yw staff CPS yn mynychu cyfarfodydd datblygiad achosion Llys y Goron, ond trafodir materion cyffredinol sy'n ymwneud â datblygiad achosion gyda'r rheolwyr llys perthnasol yng Ngrŵp Perfformiad yr Ardal a'r cyfarfodydd â'r defnyddwyr llys, a fynychir. Mae uwch reolwyr hefyd yn cyfarfod â'r Barnwyr Preswyl yn unigol o bryd i'w gilydd i drafod datblygiad achosion, ymhlith pethau eraill. Mae'r gyfradd isel ar gyfer treialon aneffeithiol yn cadarnhau bod yr amrywiol systemau datblygiad achosion ar y cyd yn effeithiol, er gwaethaf y pellteroedd mawr. Fodd bynnag mae angen i'r Ardal wneud gwaith pellach gyda'r heddlu ar

ddarparu mathau penodol o dystiolaeth, megis fforensig a datganiadau meddygol, er mwyn manteisio ar y cynnydd a wnaed hyd yn hyn.

- Nid oes ond ychydig o achosion Llys y Goron sy'n ymwneud â diffynyddion ifanc neu droseddwyr ifanc cyson sy'n ei gwneud yn bosibl i arbenigwyr, neu Bennaeth yr Uned mewn achosion difrifol iawn, ymdrin â phob achos ieuenctid. Felly nid oes angen system olrhain ffurfiol, ond mae'r swyddogion datblygu achosion yn chwarae rhan yn y gwaith monitro er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â hwy yn gyflym. Mae'r perfformiad TIC ardderchog y cyfeirir ato yn Agwedd 2 (uchod) yn awgrymu bod y systemau hyn yn effeithiol.

- Mae'r gyfradd treialon aneffeithiol yn gostwng. Yn 2006-07, cafwyd perfformiad ardderchog a dim ond un ardal cyfiawnder troseddol a berfformiodd yn well. Roedd y gyfradd treialon effeithiol yn drydedd yn genedlaethol yn 2006-07, ond ni fu hwn yn welliant am fod y gostyngiad yn y gyfradd treialon aneffeithiol wedi'i wrthbwyso (yn union) gan gynnydd yn y gyfradd treialon chwâl dros yr un cyfnod. Eto i gyd roedd y gyfradd treialon chwâl dipyn yn uwch na'r gyfradd genedlaethol a dim ond un ardal cyfiawnder troseddol a berfformiodd yn well.

- Caiff cyfraddau treialon chwâl ac aneffeithiol eu hystyried yn fanwl yng nghyfarfodydd y grŵp defnyddwyr llys a gadeirir gan y Barnwr Preswyl ac a fynychir gan Bennaeth Uned perthnasol. Oherwydd y niferoedd bach mae modd i Grwpiau Perfformiad Rhanbarthol a grŵp Perfformiad yr Ardal ystyried achosion unigol, yn enwedig lle bu bai ar yr erlyniad. Caiff gwersi eu nodi a'u cyfleu i'r cyfreithwyr adolygu gan Bennaeth yr Uned yn unigol a thrwy gyfarfodydd tîm. Mae'r CCP gweithredol yn ymdrin â materion pwysig mewn e-bost misol at bob cyfreithiwr, sydd wedyn yn cael eu harfarnu yn erbyn eu cyfraniad unigol i ostwng cyfraddau treialon chwâl ac aneffeithiol.

- Mae'r Ardal yn hyrwyddo'r defnydd effeithiol o'r system rheoli achosion. Dengys ein gwiriadau realiti y caiff ei defnyddio bob tro ar gyfer cwblhau tasg graidd paratoi achos, ond nid oedd tystiolaeth o unrhyw dasgau a gafodd eu trosglwyddo. Yn 2006-07 cynhaliwyd 88% o adolygiadau Llys y Goron ar y system rheoli achosion o gymharu â'r targed cenedlaethol o 90% a chafwyd cydymffurfiaeth 100% yn ystod chwe mis cyntaf 2007-08.

| 4 DATBLYGIAD ACHOSION YN Y LLYS | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Da | **Da** | **Sefydlog** |

### 4A Mae'r Ardal yn sicrhau bod achosion yn cael eu datblygu ym mhob ymddangosiad llys

- Mae'r Ardal yn gweithio'n effeithiol gyda'r heddlu i sicrhau bod achosion ar y cyfan yn barod i fynd rhagddynt yn y gwrandawiad cyntaf. Mae rhyngwyneb effeithiol rhwng yr heddlu a swyddfeydd y CPS yn ei gwneud yn bosibl i drosglwyddo ffeiliau'n electronig ac i wybodaeth flaenorol fod ar gael i'r amddiffyniad a'r Gwasanaeth Prawf ddeuddydd cyn y gwrandawiad cyntaf. Cyn i CJSSS gael ei chyflwyno, rhoddwyd gwybodaeth flaenorol yn y gwrandawiad llys cyntaf. Nododd ein harchwiliadau o'r ffeiliau fod achosion yn datblygu'n foddhaol.

- Darperir papurau i eiriolwyr yr erlyniad cyn dyddiad y gwrandawiad er mwyn sicrhau y gellir paratoi a chyflwyno achosion yn effeithiol. Mae Eiriolwyr Llys Uwch fel arfer yn gweithredu fel eiriolwyr yn yr achosion a adolygwyd ganddynt. Yn 2006-07 darperir briffiadau i'r cwnsler ar amser mewn 85.6% o achosion o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 78.7% Dangosodd ein gwiriad realiti o achosion Llys y Goron gyfarwyddiadau o safon dda gyda dadansoddiad o'r achos, gan gynnwys derbynioldeb pleon lle y bo'n briodol. Yn ôl adborth gan bartneriaid mae'r CPS yn mynd ati i fynd ag achosion yn eu blaen lle bynnag y bo modd yn y llys ynadon ac yn Llys y Goron.

- Mae gan yr Ardal drosiant staff isel sy'n golygu bod cyfreithwyr a gweithwyr achos yn brofiadol iawn fel arfer. Dyrennir achosion sensitif i gyfreithwyr a bargyfreithwyr arbenigol. Yn y llysoedd ynadon defnyddir gweithwyr achos dynodedig lle y bo modd, ond nid oes modd ymestyn eu defnydd oherwydd y niferoedd bach o achosion a dosbarthiad daearyddol y llysoedd. Dewisir eiriolwyr yr erlyniad ar sail profiad. Nid oes nifer targed o sesiynau yn y llysoedd ynadon i erlynwyr, ond mae Penaethiaid Uned yn ceisio sicrhau bod pob cyfreithiwr yn cael digon o amser yn y swyddfa i adolygu eu hachosion. Oherwydd y dosbarthiad daearyddol caniateir i gyfreithwyr weithio gartref neu ddefnyddio cyfleusterau gwag mewn mannau cyhuddo i leihau amser teithio a chostau.

- Mae'r Ardal yn ceisio defnyddio ei Heiriolwyr Llys Uwch ei hun lle y bo'n briodol, gan gynnwys mewn treialon. Yn ôl adborth gan un partner byddai rhagor o hyfforddiant mewn treialon o fudd i Eiriolwyr Llys Uwch. Caiff eiriolwyr y CPS eu monitro'n ffurfiol gan Benaethiaid Uned o leiaf unwaith y flwyddyn a rhoddir adborth am hyn i gyfreithwyr.

- Caiff presenoldeb a materion sy'n codi o bresenoldeb amserol, ymddygiad proffesiynol a chyfreithwyr yn neilltuo digon o amser i gydgysylltu â defnyddwyr llys - gan gynnwys tystion a chyfreithwyr yr amddiffyniad - eu monitro gan Benaethiaid Uned sy'n mynychu'r llys a thrwy adborth gan gynghorwyr cyfreithiol, yn anffurfiol a thrwy gyfarfodydd y grŵp defnyddwyr llys. Ymddengys bod y trefniadau hyn yn effeithiol.

- Mae protocolau ar waith gyda'r llysoedd ynadon mewn perthynas â rhestru achosion. Yn rhannol oherwydd cyfyngiadau daearyddol a theithio mae'r CPS wedi cyd-drafod â'r Gwasanaeth Llysoedd i sicrhau nad oes rhestriadau hanner dydd yn y llysoedd ynadon. Mewn achosion lle

mae diffynnydd yn pledio'n ddieuog ceir cyfarwyddiadau safonol a wneir yn Llys y Goron ac yn y llysoedd ynadon. Mae trefniadau ar waith ym mhob llys fel y gellir darparu papurau brys dros y ffacs neu e-bost i'r cyfreithiwr yn y llys. Caiff trefniadau rhestru yn Llys y Goron eu trafod yn rheolaidd rhwng yr unedau a'r swyddogion datblygu achosion priodol yn Llys y Goron.

- Mae'r Gwasanaeth Llysoedd yn casglu data ar yr amser a gymerir ar gyfer achosion ac ar nifer y gohiriadau, a drafodir yng nghyfarfodydd Grŵp Perfformiad yr Ardal, a rhoddir adborth mewn cyfarfodydd tîm, drwy e-bost grŵp neu at gyfreithwyr unigol fel y bo'n briodol. Ers i CJSSS gael ei chyflwyno ledled Dyfed Powys mae perfformiad yn gwella, ond mae'n gynnar eto.

- Gwnaed dau orchymyn costau a wastraffwyd yn 2006-07, am symiau bach iawn. Y prif reswm dros y gorchmynion oedd nad oedd y CPS wedi cael ffeil lawn o bapurau er mwyn mynd ag achos yn ei flaen. Cafwyd un gorchymyn costau a wastraffwyd yn 2007-08.

| 5 ACHOSION SENSITIF A THROSEDDAU CASINEB | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Gweddol | **Da** | **Wedi gwella** |

**5A Mae'r Ardal yn nodi ac yn rheoli achosion sensitif (yn cynnwys troseddau casineb[5]) yn effeithiol**

- Disgwylir i erlynwyr ar ddyletswydd nodi achosion sensitif a throseddau casineb ar gam cyhuddo ac yna cânt eu nodi ar y system rheoli achosion. Mae Penaethiaid Unedau yn monitro pa mor dda yr ymdrinnir ag achosion fel rhan o weithdrefn CQA ac, yn ogystal â hynny, caiff achosion aflwyddiannus eu dadansoddi bob mis yng nghyfarfod Grŵp Perfformiad yr Ardal. Mae'r Ardal yn cynnal ffeil ganolog sy'n cynnwys data am achosion difrifol a sensitif sy'n mynd rhagddynt. Mae hyn yn helpu'r CCP gweithredol i'w monitro. Ceir gweithdrefnau ysgrifenedig y cytunwyd arnynt gyda'r heddlu ar gyfer ceisio penderfyniad cyn cyhuddo mewn achosion o honiadau o drais rhywiol er mwyn sicrhau bod cyngor ar gyhuddo yn cael ei roi gan gyfreithwyr arbenigol.

- Penodwyd hyrwyddwyr ar gyfer pob categori o achosion sensitif; mae'r rhain i gyd yn gyfreithwyr profiadol iawn. Disgwylir iddynt roi hyfforddiant ac arweiniad i erlynwyr eraill, ymgysylltu â'r grwpiau cymunedol priodol a phartneriaid cyfiawnder troseddol a dadansoddi data perfformiad. Mae ganddynt amcanion o ran eu harbenigeddau yn eu Hadolygiadau Datblygu Perfformiad.

- Mae gan yr Ardal weithlu sefydlog ac mae cyfreithwyr yn meddu ar gryn brofiad o ymdrin â throseddau sensitif a throseddau casineb. Pan dderbynnir ffeiliau yn y swyddfa mae Penaethiaid Uned yn dyrannu achos sensitif yn unol â'r profiad sydd ei angen i ymdrin ag ef ac wrth ystyried anghenion hyfforddiant cyfreithwyr. Er mwyn helpu i sicrhau bod cyfreithwyr yn cael digon o amser i ymdrin ag achosion mae'r Ardal yn cofnodi pob achos sensitif a throsedd casineb gan gynnwys manylion y cyfreithiwr a ddyrannwyd, y gweithiwr achos a, lle y bo'n briodol, y bargyfreithiwr a gyfarwyddwyd.

- Nid oes Rheolwr Cyfathrebu ar hyn o bryd; mae Rheolwr Busnes yr Ardal yn ymgymryd â llawer o'i swyddogaethau ac yn cydgysylltu'n rheolaidd â swyddfa'r wasg yn Heddlu Dyfed Powys. Mae'r CPS yn cynnal perthynas dda â'r cyfryngau lleol ac mae'n rhagweithiol yn ei ymwneud â hwy. Mae cyfreithwyr wedi gwneud datganiadau i'r cyfryngau cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

- Caiff achosion sensitif eu nodi ar y system rheoli achosion a chadarnhawyd hyn gan ein gwiriad realiti lle roedd pob un o'r 10 achos a ystyriwyd gennym wedi'u nodi. Yn dilyn yr OPA diwethaf rhoddodd yr Ardal hyfforddiant i gyfreithwyr ar y defnydd o'r system rheoli achosion a nodi achosion. Mae'r Hyrwyddwr Trais yn y Cartref a'r swyddog cyfatebol yn yr Heddlu yn croesgyfeirio eu cofnodion yn rheolaidd er mwyn sicrhau cysondeb. Mae'r rheolwyr gweinyddol yn cynnal gwiriadau sawl gwaith y flwyddyn er mwyn sicrhau y caiff pob achos ei nodi'n briodol ar y system rheoli achosion.

---

5 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth mae pob cyfeiriad yn hyn o beth at achosion sensitif yn cynnwys pob un sy'n ymwneud â throseddau casineb (troseddau casineb o ran anabledd, trais yn y cartref, troseddau homoffobig, hiliol a chrefyddol), cam-drin plant/tystion sy'n blant, trais rhywiol, troseddau traffig ffordd angheuol a gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASBOs).

- Ystyrir polisïau'r CPS ac adolygiadau thematig HMCPSI pan fydd arfer yr Ardal yn cael ei lunio. Mae'r hyrwyddwr perthnasol neu'r arbenigwr arweiniol yn cael y cyfrifoldeb o ledaenu'r wybodaeth angenrheidiol a monitro cydymffurfiaeth.

- Mae angen awdurdod Pennaeth Uned cyn newid cyhuddiad, neu sail ple a dderbynnir, sy'n lleihau'r elfen o 'gasineb' yn y drosedd neu ei thynnu'n gyfan gwbl.

- Oherwydd y niferoedd bach o achosion sensitif a throseddau casineb yr ymdrinnir â hwy gall y cyfraddau canlyniadau amrywio'n fawr. Mae'r gyfradd canlyniadau llwyddiannus yn y llysoedd ynadon a Llys y Goron gyda'i gilydd wedi parhau i wella dros y flwyddyn ddiwethaf ac, mae'r gyfradd, sef 73.7% (64.5% yn 2005-06) dipyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 64.0% (62.0%). Roedd y gyfradd canlyniadau llwyddiannus ar achosion o drais yn y cartref, sef 72.6%, dipyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 65.2%, ar ôl gweithredu Llys Arbenigol ar gyfer Trais yn y Cartrefi yn Sir Benfro. Roedd y gyfradd canlyniadau llwyddiannus ar gyfer achosion a waethygir oherwydd hil neu grefydd hefyd dipyn yn uwch na'r ffigur cenedlaethol, 80.9% o gymharu â 73.5%. Roedd nifer yr achosion homoffobig yn rhy fach i roi ffigur ystyrlon ar gyfer canlyniadau llwyddiannus.

- Ystyrir data perfformiad mewn achosion sensitif a throseddau casineb bob mis, yn fewnol gan Benaethiaid Uned ac yn allanol yng nghyfarfodydd PTPM, a Grŵp Perfformiad yr Ardal. Creffir ar achosion sydd wedi methu fel rhan o'r adroddiadau cyffredin ar bob canlyniad aflwyddiannus a adolygir gan Grŵp Perfformiad yr Ardal. Paratoir adroddiadau ar bob achos sydd wedi'i restru ar gyfer treial sy'n dreial chwâl, effeithiol ac aneffeithiol gan y llysoedd, yr amddiffyniad a'r erlyniad. Ystyrir y rhain gan Grŵp Perfformiad yr Ardal yn ei gyfarfodydd misol.

- Mae'r Ardal yn cydnabod bod angen proses arbennig ar gyfer dyrannu achosion sy'n ymwneud â cham-drin plant neu lle mae plant yn dystion. Mae'r Hyrwyddwr Trais yn y Cartref hefyd yn Hyrwyddwr Mesurau Arbennig a rhoddodd hyfforddiant i bob cyfreithiwr ar ymdrin ag achosion lle mae plant yn ddioddefwyr neu'n dystion. Cynrychiolir yr Ardal yng nghyfarfodydd y pedwar Bwrdd Lleol Diogelu Plant dros Ardal Dyfed Powys.

| 6 DATGELU | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Gweddol | **Da** | **Wedi gwella** |

### 6A Ceir cydymffurfiaeth â dyletswyddau datgelu'r erlyniad

- Yn ôl ffynonellau allanol mae cydymffurfiaeth y CPS â'r drefn ddatgelu yn dda ar y cyfan. Dangosodd ein gwiriadau realiti gydymffurfiaeth gyson â datgelu cychwynnol a gyflawnwyd yn llawn mewn pedwar o bum treial yn y llys ynadon, er ei fod yn hwyr yn un ohonynt, ac yn gywir ym mhob un o'r pum treial yn Llys y Goron. Anaml iawn y caiff datganiad amddiffyniad ei gyflwyno yn achosion llysoedd ynadon yn Nyfed Powys, ond yn y pum achos yn Llys y Goron cydymffurfiodd yr erlyniad yn llawn â'r ddyletswydd i ddatgelu'n barhaus.

- Yn gyffredinol, mae'r canfyddiadau hyn yn gyson â'r rhai yn yr arolwg a gynhaliwyd gan y CCP gweithredol yn ystod haf 2007, ond maent ychydig yn waeth nag asesiadau CQA yr Ardal ei hun yn 2006-07 sy'n awgrymu cyfradd gydymffurfio uwch. Maent hefyd yn dangos gwelliant sylweddol ers yr OPA diwethaf. Bryd hynny dim ond mewn 68.4% o ffeiliau Llys y Goron y gwelwyd cydymffurfiaeth â datgelu rhagarweiniol, a 25% gyda datgelu eilaidd.

- Trafodwyd protocol Llys y Goron ar ymdrin â deunydd nas defnyddiwyd gyda'r farwniaeth pan ddaeth i rym. Mae pob parti yn cydymffurfio â'r protocol ar y cyfan a chodir unrhyw broblemau yng nghyfarfodydd y grŵp defnyddwyr llys a gadeirir gan y Barnwr Preswyl.

- Mae'r Ardal wedi canolbwyntio'n ddiweddar ar yr angen am gydymffurfiaeth â'r Llawlyfr Datgelu ac, yn benodol, yr angen am gwblhau taflenni cofnodi datgelu yn llawn. Mae'r CCP gweithredol wedi anfon nifer o negeseuon e-bost at bob cyfreithiwr yn tynnu sylw at hyn ac mae nodyn atgoffa yn nodi'r camau datgelu hanfodol wedi cael eu dosbarthu i gyfreithwyr. Dangosodd yr arolwg o ddatgelu gan yr Ardal fod y daflen cofnodi datgelu yn cael ei chwblhau fel arfer a chadarnhawyd hyn gan ein gwiriadau realiti.

- Ceir systemau trylwyr ac effeithiol ar gyfer sicrhau bod deunydd sensitif yn cael eu cadw'n ddiogel, ei gofnodi a'i adolygu'n briodol gan y CCP gweithredol. Caiff y cofnod o imiwnedd budd y cyhoedd ei ddiweddaru. Dangosodd ein gwiriadau realiti yr ymdriniwyd â datgelu sensitif (gan gynnwys gan drydydd partïon) yn briodol ym mhob achos.

- Y CCP gweithredol yw'r Hyrwyddwr Datgelu a'r enw cyswllt i'r heddlu ar faterion datgelu. Fel hyrwyddwr, mae wedi cynnal hyfforddiant mewnol ar y llawlyfr, arolygon ac wedi sicrhau ansawdd asesiadau CQA. Mae hefyd yn cydgysylltu'n rheolaidd ag Uwcharolygydd yr Heddlu sy'n gyfrifol am weinyddu cyfiawnder troseddol o ran materion datgelu. Trafodir materion datgelu yn fwy ffurfiol yng nghyfarfodydd y grŵp datgelu ar y cyd a gynhelir ddwywaith y flwyddyn. O'r cyfarfodydd hyn y deilliodd y rhaglen hyfforddi ar y cyd sydd wedi sicrhau bod pob cwnstabl yn Nyfed Powys wedi cael hyfforddiant ar gwblhau rhestrau datgelu.

| 7 TERFYNAU AMSER CADWRAETH | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Gweddol | **Da** | **Wedi gwella** |

**7A Mae systemau terfynau amser cadwraeth yr Ardal yn cydymffurfio â chanllawiau presennol y CPS a chyfraith achosion**

- Mae system wedi''i dogfennu ac wedi'i diweddaru ar gyfer rheoli terfynau amser cadwraeth (CTL) achosion sy'n cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol ac sy'n ymgorffori rhai o'r arferion gorau a nodir gan HMCPSI. Mae'r canllaw hwn ar gael i'r staff ac, ynghyd â'r 'cyfrifydd' terfyn amser cadwraeth, mae wedi cael ei ddosbarthu'n unigol i bob aelod perthnasol o staff. Cafodd y system ei hadolygu a'i diwygio fel rhan o'r broses o gynllunio cyflwyno CJSSS. Mae system ddeuol (dyddiadur â llaw a'r system rheoli achosion) ar waith ar gyfer cofnodi dyddiadau terfynau amser cadwraeth.

- Gwelwyd yn ein gwiriad realiti fel rhan o'r OPA hwn bod pob achos lle roedd terfyn amser cadwraeth wedi'i nodi'n glir â stamp "CTL" coch. Roedd y dyddiad dod i ben wedi'i gyfrifo'n gywir yn y chwe achos ac wedi'i arnodi'n glir ar glawr y ffeil mewn pump o'r chwe ffeil a welwyd gennym.

- Rheolwr Busnes yr Ardal yw'r Hyrwyddwr CTL. Mae'n ymweld yn rheolaidd ac yn cynnal archwiliadau CTL o ffeiliau ar bob un o'r tri safle. Caiff yr archwiliadau hyn eu dogfennu a rhoddir adborth ar lafar neu drwy e-bost i gyfreithwyr a staff gweinyddol lle y bo'n briodol.

- Ni fu unrhyw fethiannau o ran terfynau amser cadwraeth ers yr OPA diwethaf. Mae rheolwyr yn ymwybodol y byddai'n rhaid hysbysu Rheolwr Busnes yr Ardal o unrhyw fethiant ar unwaith. Mae nifer o achosion lle ceir terfynau amser cadwraeth yn fach ac yn y llysoedd ynadon mae'r rhan fwyaf o achosion yn cael eu cwblhau cyn bod angen gwneud cais am estyn y terfyn amser.

- Nid oes trefniant ffurfiol ar waith i gytuno ar ddyddiadau terfynau amser cadwraeth yn y llysoedd ynadon. Mae'r system ysgrifenedig yn darparu bod yn rhaid i'r ffeil gael ei harnodi i nodi y cytunwyd ar ddyddiad terfyn amser cadwraeth yn ystod y gwrandawiad cyntaf gyda chynghorydd cyfreithiol a enwir (clerc y llys) neu gyda rhesymau pam na roddwyd y wybodaeth hon. Yn ôl ein gwiriad realiti o chwe ffeil ni chydymffurfiwyd â'r gofyniad hwnnw fel mater o drefn.

- Fel rhan o CQA mae Penaethiaid Uned yn monitro cydymffurfiaeth â'r system CTL. Fodd bynnag, oherwydd y nifer fach o achosion lle maent yn gymwys, ategir gwiriadau CQA gan archwiliadau o ffeiliau perthnasol ar y safle o bryd i'w gilydd gan yr Hyrwyddwr CTL. Mae'r rheolwyr gweinyddol yn archwilio pob ffeil CTL yn wythnosol er mwyn sicrhau bod y dyddiadau wedi'u cofnodi'n gywir ar y system rheoli achosion ac yn y dyddiadur a bod unrhyw geisiadau angenrheidiol am estyniadau wedi'u gwneud.

- Mae staff yn defnyddio'r system rheoli achosion i olrhain achosion lle ceir terfynau amser cadwraeth. Defnyddir y cyfleuster rheoli tasg i sicrhau bod adolygiadau a cheisiadau, lle y bo angen, yn cael eu cwblhau mewn pryd.

| 8 Y GWASANAETH I DDIODDEFWYR A THYSTION | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Da | **Gweddol** | **Wedi gwaethygu** |

**8A Mae'r Ardal yn sicrhau y caiff anghenion dioddefwyr a thystion eu hystyried a'u diwallu'n amserol ac yn effeithiol**

- O dan y cynllun Cyfathrebu'n Uniongyrchol â Dioddefwyr (DCV) mae'n ofynnol anfon llythyr pan gaiff y cyhuddiad ei ollwng neu ei newid yn sylweddol. Yn 2005-06 rhagorwyd ar y targed procsi o 32 o lythyrau mewn deg mis allan o 12. Fodd bynnag yn 2006-07 methodd yr Ardal yn rheolaidd â chyrraedd ei darged procsi (a amrywiodd o rhwng 41-45 o lythyrau drwy gydol y flwyddyn). Cred yr Ardal fod y targed procsi yn rhy uchel ac ar ôl trafodaeth â Phencadlys y CPS penderfynwyd lleihau'r targed i 35 o lythyrau'r mis ar gyfer 2007-08. Fodd bynnag, dylid nodi na fyddai'r targed newydd o 35 o lythyrau wedi cael ei gyflawni yn 2006-07 ychwaith. Yn yr un cyfnod dim ond 68% o lythyrau a anfonwyd o fewn pum diwrnod gwaith, a oedd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 73%. Cadarnhaodd gwiriadau realiti fod ansawdd y llythyrau'n dda ar y cyfan, ond bod un yn ddryslyd ac yn cynnwys gormod o derminoleg gyfreithiol.

- Mae erlynwyr yn sicrhau bod dioddefwyr a thystion ym mhob achos (lle ceir penderfyniad cyn cyhuddo ai peidio) yn cael eu nodi a dangosodd gwiriadau realiti ar gyfer nodi dioddefwyr ar y system rheoli achosion fod yr Ardal yn dda ar y cyfan. Roedd ceisiadau am fesurau arbennig hefyd yn amserol ac o safon dda. Mae asesiadau cychwynnol o anghenion, a fu'n broblem, fel arfer wedi'u cofnodi gan yr heddlu ar gefn eu datganiad erbyn hyn. (ffurflen MG11). Cofnodir gwybodaeth am ddioddefwyr a thystion ar systemau'r heddlu a'r CPS a dyrennir pob achos lle mae angen asesu anghenion ymhellach i Swyddog Gofal Tystion (WCO), sy'n gweithredu fel enw cyswllt unigol drwy gydol yr achos.

- Mae system fonitro ar waith i sicrhau bod cyfreithwyr yn cydymffurfio ag Addewid yr Erlynwyr. Mae hon yn rhan o'r system monitro CQA a hapsamplu ffeiliau. Mae Penaethiaid Uned yn rhoi adborth i gyfreithwyr (weithiau ar sail gwiriadau gan y Rheolwr Gofal Tystion) mewn negeseuon e-bost mewnol sy'n cynnwys agweddau ar berfformiad da, meysydd i'w gwella ac anghenion hyfforddiant. Ar gyfer 2006-07 er bod yr Ardal yn cadarnhau bod Penaethiaid Uned yn monitro perfformiad cyfreithwyr tra byddant yn y llys, gan gynnwys y ffordd y maent yn trin tystion, ni ddefnyddiwyd ffurflenni monitro i gofnodi'r perfformiad. Mae'r broblem hon wedi'i datrys erbyn hyn ac mae ffurflenni monitro wedi cael eu cwblhau ers mis Hydref 2007. Ceir adborth hefyd ar berfformiad cyfreithwyr yn uniongyrchol o'r llysoedd, Cymorth i Ddioddefwyr a'r Gwasanaeth Tystion. Roedd y sylwadau a wnaed i'r tîm arolygu o'r ffynonellau hyn yn gadarnhaol.

- Mae tystion yn cael eu rhybuddio a'u dadrybuddio mewn ffordd amserol a chywir. Mae Pennaeth yr Uned yn hapsamplu ar gyfer ansawdd ffurflenni argaeledd tystion, ond nid yw rhai mor fanwl ag y gallant fod. Rhybuddir swyddogion yr heddlu gan swyddogion gofal tystion drwy ddefnyddio system dyletswyddau electronig yr heddlu.

- Mae un Uned Gofal Tystion sy'n cynnwys staff yr heddlu a'r CPS yng Nghaerfyrddin ynghyd ag Uned Dreialon y CPS a rhai o'i unedau cyfiawnder troseddol, ac uned dreialon yr heddlu. Caiff gwybodaeth ei chyfnewid yn amserol oherwydd y cyd-leoliad hwn ac er mwyn sicrhau

amseroldeb yn yr unedau cyfiawnder troseddol mewn swyddfeydd eraill caiff unrhyw gamau a nodir gan y cyfreithiwr eu hanfon dros yr e-bost at yr Uned Gofal Tystion ar yr un y diwrnod, er mwyn i'r Uned Gofal Tystion hysbysu dioddefwyr a thystion o unrhyw ddatblygiadau yn yr achos o fewn 24 awr. Caiff perfformiad a materion o ran dioddefwyr a thystion eu trafod yn y lle cyntaf yn y Grŵp Gweithredu Lleol Dim Tyst, Dim Cyfiawnder (NWNJ LIT) a lle mae angen trosglwyddo materion caiff hyn ei godi gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol. Cyfnewidir gwybodaeth gyda Cymorth i Ddioddefwyr a'r Gwasanaeth Tystion yn dda ar y cyfan, er bod rhai achosion yn ddiweddar lle nad oedd y Gwasanaeth Tystion wedi cael gwybod am bob gohiriad.

**8B Mae'r Ardal, ar y cyd â'i phartneriaid cyfiawnder troseddol, wedi cyflwyno'r cynllun Dim Tyst Dim Cyfiawnder (NWNJ) yn effeithiol**

- Mae'r Uned Gofal Tystion wedi'i lleoli yng Nghaerfyrddin ac mae'n cynnwys pedwar aelod o'r heddlu a chwe aelod o staff y CPS (gan gynnwys y rheolwr). Cafodd yr Ardal arian am NWNJ ar gyfer 2007-08 er nad yw'n hysbys eto a fydd ar gael ar gyfer 2008-09. Caiff y rhan fwyaf o ofynion sylfaenol NWNJ a Chod y Dioddefwyr eu bodloni, a hefyd y rhan fwyaf o'r mesurau sylfaenol. Yn 2006-07 roedd y perfformiad treigl blynyddol o ran treialon aneffeithiol oherwydd materion yn ymwneud â thystion a threialon chwâl oherwydd pleon euog hwyr dipyn yn well na'r llinell sylfaen yn y llysoedd ynadon a Llys y Goron. Fodd bynnag mae nifer y treialon chwâl oherwydd materion yn ymwneud â thystion yn y llysoedd ynadon yn waeth na'r llinell sylfaen ar gyfer 2006-07. Bu gwelliannau sylweddol yn ystod dau chwarter cyntaf 2007-08 a chyflawnwyd y targed yn Llys y Goron. Mae perfformiad yn waeth na'r perfformiad cenedlaethol bron ym mhob un o'r mesurau sylfaenol.

- Mae Rheolwr yr Uned Gofal Tystion yn paratoi adroddiadau chwarterol sy'n cynnwys sut y cydymffurfir â Chod y Dioddefwyr, gofynion NWNJ a mesurau sylfaenol ac eilaidd. Dadansoddir y data hwn ar y cyd yn NWNJ LIT gan y CPS a'r heddlu a rhoddir adroddiad i'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol. Paratowyd nifer o gynlluniau gweithredu sy'n cofnodi'r gwahanol linynnau o waith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd ac maent yn helpu i ganolbwyntio gweithgarwch ar fodloni Cod y Dioddefwyr a gofynion sylfaenol NWNJ. Maent yn cynnwys amcanion priodol gyda 'pherchnogion' a ddyrannwyd, ond nid yw rhai yn nodi pa gyfnod y maent yn ei gwmpasu ac nid oes i nifer o gerrig milltir sydd wedi'u graddio'n felyn gamau gweithredu wedi'u nodi i fynd i'r afael â pherfformiad. Hefyd mae cyfarwyddiadau desg wedi'u dyddio Medi 2005, er i ni dderbyn y sicrwydd a roddwyd i ni eu bod wedi'u diweddaru yn 2006.

- Trafodir perfformiad a materion ac ymdrinnir â hwy yn NWNJ LIT. Mae rhan o'r archwiliadau monitro a wneir gan Benaethiaid Uned yn edrych ar gydymffurfiaeth â Chod y Dioddefwyr. Mae Rheolwr yr Uned Gofal Tystion yn hapsamplu er mwyn sicrhau ansawdd y System Rheoli Tystion electronig (sydd wedi'i chysylltu â'r system rheoli achosion). Mae NWNJ LIT a gwaith monitro wedi arwain at rai gwelliannau mewn prosesau, megis y rhai o ran cynnal asesiadau o anghenion a'r lleihad yn nifer y treialon aneffeithiol oherwydd materion yn ymwneud â thystion.

- Caiff yr holl faterion a gwersi a ddysgwyd drwy ddadansoddi ar y cyd eu rhannu gyda'r staff yn unigol a thrwy Grŵp Hyder y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol. Rhoddir gwybodaeth am ofal tystion ar fewnrwyd yr heddlu, y mae staff y CPS yn cael mynediad ati. Fodd bynnag ni thrafodir perfformiad o ran gofal tystion yng nghyfarfodydd tîm yr Uned Gofal Tystion.

| 9 CYFLWYNO NEWID | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Gweddol | **Gweddol** | **Sefydlog** |

### 9A Mae gan yr Ardal ymdeimlad clir o ddiben a ategir gan gynlluniau perthnasol

- Mae gan yr Ardal ymdeimlad clir o'r hyn y mae am ei gyflawni a sut i'w gyflawni. Yn unol â'r cynllun busnes cenedlaethol, mae cynllun busnes yr Ardal yn cwmpasu 15 o flaenoriaethau allweddol y CPS a thargedau'r Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus ac mae'n cynnwys cerrig milltir perthnasol sy'n gysylltiedig â phrosiectau, hyfforddiant a pherfformiad. Datblygwyd cynlluniau 2006-07 a 2007-08 gyda chynrychiolwyr staff allweddol ar bob gradd a chydag unedau mewn 21 o 'rith-gelloedd cynllunio' ledled yr Ardal. Bu syniadau o bob cell yn rhan o'r cynllun. Mae gan bob uned ei gynllun busnes tîm ei hun sydd wedi'i gysoni er mwyn cyflawni cynllun yr Ardal. Mae cofnod risg priodol ochr yn ochr â chynllun yr Ardal ac mae'r naill a'r llall yn cynnwys unrhyw waith prosiect sy'n mynd rhagddo.

- Mae gan bob uwch reolwr gyfrifoldeb wedi'i ddyrannu am amcanion ar lefel strategol. Mae terfynau amser a chanlyniadau yn glir ac yn fesuradwy. Defnyddir y cerrig milltir yng nghynlluniau busnes timau i lywio amcanion cynlluniau swydd unigolion. Mae cyfarfod Tîm Rheoli'r Ardal yn adolygu cynllun busnes yr Ardal a'r cofnod risg yn ffurfiol bob mis. Mae cynlluniau busnes a phrosiect yn eitemau sefydlog ar agenda cyfarfodydd Tîm Rheoli'r Ardal a nodir y datblygiadau diweddaraf yn y cofnodion. Dylai camau gweithredu a'r datblygiadau diweddaraf o'r cyfarfodydd gael eu cofnodi yn y cynlluniau eu hunain fel y gall yr Ardal fesur ei chynnydd yn erbyn targedau, cofnodi rhesymau dros lithriant a datblygu gwersi i'w dysgu ar gyfer prosiectau yn y dyfodol. Caiff amcanion staff eu hadolygu fel rhan o adolygiadau arfarnu chwe mis y staff a chyflwynir adroddiad ar unrhyw faterion nad ymdriniwyd â hwy i Dîm Rheoli'r Ardal. Mae'r Ardal yn cyflwyno canlyniadau canol blwyddyn ei chynllun busnes mewn digwyddiad i'r staff i'w gynnal ym mis Tachwedd 2007. Yn arolwg staff 2006 nododd mwy o staff yn Nyfed Powys eu bod yn deall sut roedd eu gwaith yn cyfrannu tuag at amcanion y tîm a'r Ardal, nag a nodwyd yn y CPS yn genedlaethol.

- Ceir tystiolaeth o gydgynllunio ar bob lefel, o Grwpiau Perfformiad Rhanbarthol hyd at y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol. Yn gyffredinol ymdrinnir â mentrau ar y cyd yn dda ac mae arwydd clir o'r ffordd y dylai pob asiantaeth gyfrannu i'r cynlluniau. Fodd bynnag mae dulliau o fesur llwyddiant neu unrhyw fethiant yn aneglur. Nid oes terfynau amser wedi'u cofnodi i rai cynlluniau gweithredu, y gellid mesur llwyddiant yn eu herbyn.

- Er bod y rhan fwyaf o brosiectau a grwpiau yn cael eu harwain gan asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill, mae'r CPS yn cadeirio rhai cyfarfodydd PTPM a phenaethiaid siambrau a Thîm Gweithredu Lleol Dim Tyst, Dim Cyfiawnder. Mae pob rheolwr yn chwarae rhan fel cynrychiolydd y CPS mewn cyfarfodydd megis is-grwpiau'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol, Grwpiau Perfformiad Rhanbarthol a Grŵp Perfformiad yr Ardal a grwpiau defnyddwyr llys ac ar fyrddau prosiect megis Grŵp Ymgynghorol CJSSS.

## 9B Mae strategaeth rheoli newid gydlynol a chydgysylltiedig ar gael

- Mae strwythur rheoli newid ar waith ac mae swyddogion atebol (Penaethiaid Uned fel arfer) yn diweddaru Tîm Rheoli'r Ardal bob mis. Ceir trafodaethau manwl ac ystyrir cysylltiadau clir rhwng blaenoriaethau croes. Cymharol fach fu'r newid mewnol ac mae'r rhan fwyaf o newidiadau wedi cael eu gwneud mewn ymateb i fentrau cenedlaethol, a arweiniwyd ar y cyfan gan bartneriaid yn y system cyfiawnder troseddol, sy'n ddealladwy o dan yr amgylchiadau. Caiff canlyniadau prosiectau mewnol a phrosiectau ar y cyd eu nodi yng nghofnodion Tîm Rheoli'r Ardal ond nid oes fawr ddim gwerth i hyn o ran ceisio nodi buddiannau a wireddwyd a gwersi a ddysgwyd. Gwnaed cysylltiadau rhwng prosiectau, blaenoriaethau a hyfforddiant ac mae nifer o uwch rheolwyr wedi ymgymryd â hyfforddiant rheoli prosiect. Mae'r Ardal yn amlwg wedi cyflwyno rhai trefniadau systematig ar gyfer rheoli newid, gan wneud defnydd da o gofnodion o broblemau a chostau staffio mewnol ar gyfer rhai o'i phrosiectau. Nid oes tystiolaeth o unrhyw adolygiadau wedi gweithredu, a fyddai'n helpu i wneud gwelliannau pellach i brosesau'r Ardal.

- Yn arolwg staff 2006 teimlai 54% o staff yn Nyfed Powys fod dulliau digonol o gyfrannu eu barn ar newid, o gymharu â 50% yn genedlaethol.

- Mae'n amlwg bod yr Ardal wedi symud yn ei blaen ers yr OPA diwethaf o ran gwelliannau mewn canlyniadau, yn enwedig ers mis Ionawr 2007. Mae'r Ardal yn ymwybodol
bod angen iddi ers peth amser adolygu ei strwythur cyfredol a chyda chymorth gan Bencadlys y CPS mae wedi bod yn chwilio am ffyrdd o fireinio ei strwythur, gyda'r bwriad o ddarparu gwell gwasanaethau o fewn yr adnoddau cyfredol. Dechreuodd CCP parhaol newydd ym mis Ionawr 2008. Cyn hyn paratôdd y tîm rheoli ar y pryd nifer o opsiynau ar gyfer ailstrwythuro, gydag asiantaethau partner, er mwyn iddo eu hystyried.

- Gweithredwyd CJSSS dros y rhan fwyaf o'r Ardal gyda'r uned olaf ym Mhowys yn mynd 'yn fyw' ym mis Rhagfyr 2007. Cyflwynwyd y cam cyntaf ym mis Gorffennaf 2007 ac mae buddiannau'r cynllun eisoes yn cael eu gwireddu. Mae staff y llysoedd yn fodlon iawn ar y gwelliant sylweddol o ran parodrwydd y CPS i fynd i dreial ac maent yn cadarnhau bod gwybodaeth flaenorol iddynt yn barod ddau ddiwrnod gwaith clir cyn pob gwrandawiad. Cyflwynwyd rhybuddion amodol ym mis Rhagfyr 2006 ac yn y flwyddyn ariannol 2006-07 rhoddwyd rhybuddion amodol i ddiffynyddion. Ymhlith prosiectau eraill a gyflwynwyd yn llwyddiannus mae NWNJ a chyhuddo statudol sydd, er iddynt gael eu hystyried yn 'fusnes fel arfer', yn cael eu hadolygu'n barhaus o dan y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol. Mae'r Ardal wrthi'n dechrau sefydlu Panel Craffu ar Droseddau Casineb.

- Cafwyd cofnod risgiau ar gyfer 2006-07 a 2007-08 sy'n nodi risgiau prosiectau a risgiau 'busnes fel arfer'. Caiff pob risg ei hadolygu a'i diweddaru'n ffurfiol yng nghyfarfod misol Tîm Rheoli'r Ardal.

## 9C Mae'r Ardal yn sicrhau bod gan staff y sgiliau, y wybodaeth a'r cymwyseddau i ddiwallu'r angen busnes

- Eir ati i roi hyfforddiant ar y cyd ag Ardal De Cymru ac Ardal Gwent y CPS a cheir cynllun hyfforddiant ar y cyd. Mae pob Ardal yn bwydo i mewn iddo'n barhaus drwy Reolwr Dysgu a Datblygu Grŵp Ardaloedd y CPS (sydd wedi'i leoli yng Nghaerdydd). Mae'r cynllun ar y cyd yn fodd i bob Ardal gyfuno eu hadnoddau ar gyfer hyfforddiant ac i ddefnyddio nifer o leoliadau hyfforddiant, gan wneud y cyrsiau yn fwy hygyrch. Nid yw hyfforddiant datblygu a nodwyd drwy'r

system arfarnu staff wedi'i gynnwys ar y cynllun hwn, ond mae ar gael a chedwir y manylion yn lleol gyda Rheolwr Busnes yr Ardal. Caiff y cynllun ei fonitro a'i ddiweddaru gan y Rheolwr Dysgu a Datblygu Nodir hyfforddiant ar gyfer Dyfed Powys yn y lle cyntaf mewn cynlluniau busnes a phrosiect ac yna caiff hynny ei fwydo i mewn i'r cynllun hyfforddiant cyffredinol, sydd hefyd yn cynnwys hyfforddiant sefydlu, hyfforddiant gorfodol mewn cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ogystal â nifer o anghenion hyfforddiant busnes.

- Nododd arolwg staff 2006 fod llai o staff yr Ardal yn teimlo nad oeddent yn cael cyfle i ddysgu a datblygu er mwyn gwneud eu gwaith yn effeithiol ac ar gyfer twf a datblygiad personol, o'u cymharu â staff y CPS yn genedlaethol. Fodd bynnag, gall yr Ardal ddangos bod cryn dipyn o hyfforddiant datblygu yn cael ei wneud yn 2007-08.

- Sicrheir yr un cyfle i gael hyfforddiant i bawb mewn sawl ffordd. Yn ogystal â chael dewis o sawl lleoliad, mae staff yn cael eu hannog i ddilyn rhai o'r cyrsiau sydd ar gael gan Goleg Erlyn electronig y CPS, sy'n galluogi dysgu o bell. Cedwir cofnod o bob aelod o staff â gofynion arbennig fel y gellir ystyried y rhain wrth drefnu hyfforddiant yn lleol. Mae cyrsiau wedi cael eu trefnu hefyd ar gyfer y rhai sy'n gweithio'n rhan amser. Mae copi o'r cynllun hyfforddiant ar gael i'r holl staff ei weld er mwyn gwneud y system yn dryloyw.

- Mae'r Rheolwr Dysgu a Datblygu yn asesu effeithiolrwydd yr hyfforddiant ar ran Dyfed Powys, Gwent a De Cymru. Gwneir rhywfaint o werthuso yn lleol drwy'r systemau rheoli perfformiad, er enghraifft CJSSS a'r system rheoli achosion. Mae cofnodi adolygiadau ar y system rheoli achosion yn un maes lle bu hyfforddiant yn effeithiol.

| 10 RHEOLI ADNODDAU | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Gwael | **Gwael** | **Sefydlog** |

## 10A Mae'r Ardal yn ceisio sicrhau gwerth am arian, ac mae'n gweithredu o fewn ei chyllideb

- Mae'r Ardal wedi gorwario ar ei chyllideb costau rhedeg nas neilltuwyd am y pedair blwyddyn ariannol ddiwethaf. Er bod peth gwelliant yn 2005-06, gyda gorwariant o 1.2% o gymharu â 2.3% yn 2004-05 a 5.3% yn 2003-04, mae perfformiad wedi llithro eto a chofnodwyd gorwariant o 2.9% yn 2006-07. Mae'r gorwariant wedi parhau yn y flwyddyn ariannol 2007-08 ac mae'r Ardal wedi priodoli hyn i'w hardal ddaearyddol fawr ac i'w chyfran lai o gostau yn seiliedig ar weithgarwch.

- Delir y grynodeb yn ganolog. Er i'r Ardal ystyried ddatganoli'r gyllideb i Benaethiaid Uned, teimlwyd bod y gyllideb a'r staffio'n rhy fach i'w rhannu'n effeithiol ac y gellid sicrhau gwell arbedion maint drwy gadw'r gyllideb ar lefel uwch. Mewn ymateb i OPA 2005, mae'r Ardal bellach yn defnyddio nifer o daenlenni misol i fonitro ei chyllidebau a thrafodir ei gwariant yn eithaf manwl yng nghyfarfodydd Tîm Rheoli'r Ardal. Mae Penaethiaid Uned yn chwarae rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir mewn perthynas ag adnoddau.

- Mae'r Ardal yn ceisio sicrhau gwerth am arian drwy gyd-drafod â'r llysoedd er mwyn cael y patrymau rhestru gorau posibl, a ddylai wedyn ei galluogi i wneud defnydd llawn o'r gweithwyr achos dynodedig. Lleihawyd rhai o'r costau teithio a chynhaliaeth sylweddol (dros 3% o'r gyllideb) hefyd drwy gael cyfreithwyr i weithio o'r ganolfan gyhuddo agosaf neu gartref ar ôl bod yn y llys, yn hytrach na dychwelyd i'r swyddfa. Mae gwaith ar gynllun ailstrwythuro yn mynd rhagddo er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau cyfredol.

- Tanwariwyd costau erlyn ar gyfer 2006-07 o 10.8%. Bu hwn yn welliant sylweddol ers yr OPA diwethaf a gorwariant o 31.2% yn 2005-06. Cynhelir cyfarfod penodol ar gostau erlyn i fonitro gwariant.

- Roedd amseroldeb taliadau o dan y cynllun ffioedd graddedig o fewn un mis i ddyddiad y gwrandawiad olaf yn dda yn 2006-07, sef 80% o'i gymharu â ffigur cenedlaethol o 50%, er bod y duedd wedi gwaethygu o 94% yn chwarter cyntaf 2006-07 i 73% yn ail chwarter 2007-08. Roedd amseroldeb o fewn pedwar mis i ddyddiad y gwrandawiad olaf yn ardderchog sef 98.0% o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 88.8%.

- Yr unig arian ychwanegol a roddwyd yn 2006-07 oedd arian i gefnogi CJSSS. Cafwyd rhywfaint o arian yng nghyllideb 2007-08 ar gyfer gwaith y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol a NWNJ.

## 10B Mae'r Ardal wedi sicrhau y caiff pob aelod o staff ei leoli'n effeithlon

- Mae gwaith cynllunio yn cael ei gynnal gan Dîm Rheoli'r Ardal bob mis gydag eitemau sefydlog ar yr agenda am y gyllideb, staffio, swyddi gwag a salwch. Defnyddiwyd y model costio yn seiliedig ar weithgarwch i gyfrifo'r nifer gorau o staff a chan eu bod yn cael eu cadw ar sail hirdymor nid oes llawer o gyfle i symud. Mae gan Ardal Dyfed Powys ormod o staff ar lefel D ac

mae llawer o'i chyfreithwyr ar frig eu graddfeydd cyflog, sy'n cael effaith sylweddol ar y gyllideb costau rhedeg nas neilltuwyd. Yn 2006-07 gwelwyd gostyngiad o 4.3% yn y llwyth achosion yn y llysoedd ynadon a chynnydd o 6.2% yn Llys y Goron. Mae sesiynau yn y llysoedd ynadon wedi cynyddu 6.9%, ond nid yw'r rheswm dros hyn yn glir yng nghyd-destun llwyth achosion sy'n lleihau. Cafodd y cynnydd hwn effaith fach ar y gyllideb ond nid oedd yn ddigon i gyfrif am y gorwariant cyfan. Fel rhan o'i strategaeth gynllunio hirdymor ac er mwyn sicrhau arbedion yn y gyllideb mae'r Ardal eisoes wedi bod mewn cysylltiad â Chyfarwyddiaeth Datblygu Busnes Pencadlys y CPS a'i Phartner Busnes Adnoddau Dynol, ac mae bellach yn ystyried dechrau ailstrwythuro'r ardal cyfiawnder troseddol. Mae nifer o opsiynau yn cael eu paratoi i'w trafod gyda'r CCP newydd pan fydd yn dechrau yn ei swydd ym mis Ionawr 2008.

- Roedd darpariaeth fewnol yr Ardal yn y llysoedd ynadon yn 84.2% yn 2006-07, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 80.4%. Gostyngodd y ddarpariaeth fewnol o 83.4% yn chwarter cyntaf 2006-07 i 80.9% ar gyfer yr un chwarter yn 2007-08.

- Trefnir bod cyfreithwyr Unedau Cyfiawnder Troseddol yn ymgymryd â phedair sesiwn hanner dydd yr wythnos a bod cyfreithwyr yr Uned Dreialon yn ymgymryd â dwy sesiwn hanner dydd yn y llysoedd ynadon a thair yn Llys y Goron. Trefnir bod gweithwyr achos yn ymgymryd â phedair sesiwn hanner dydd yr wythnos. Mae disgwyliadau'r Ardal o ran yr amser a dreulir yn y llys yn is oherwydd y pellteroedd y mae angen eu teithio i gyrraedd ei llysoedd, gyda rhai ohonynt dros 90 milltir o swyddfeydd y CPS.

- Roedd y defnydd o asiantau yn well nag a welwyd yn genedlaethol sef 15.8% o gymharu â 19.6%. Yn ardal Dyfed Powys y gwelwyd y defnydd lleiaf o weithwyr achos dynodedig yn y wlad ar gyfer 2006-07, sef 7.4%, o gymharu â'r ffigur cenedlaethol o 14.7%. Roedd y targed o 9.0% ar gyfer gweithwyr achos dynodedig yn un heriol i'r Ardal gyda dim ond 1.6 gweithiwr achos dynodedig mewn swydd. Mae digon o sesiynau yn y llysoedd ynadon i gyfiawnhau mwy o weithwyr achos dynodedig ac mae un arall wedi cael ei recriwtio. Mae perfformiad yn 2007-08 wedi gwella, ond erys yn brin o'r targed o 17.0%. Mae'r Ardal yn cadarnhau ei bod yn ystyried recriwtio gweithiwr achos dynodedig arall ar ddechrau 2008. Y disgwyl yw y bydd gweithwyr achos dynodedig yn ymgymryd â phum sesiwn hanner dydd yn y llys bob wythnos. Yn 2006-07 ymgymerodd gweithwyr achos dynodedig â 322 o sesiynau llys, sy'n cyfateb i tua 79.9% o'u hamser sydd ar gael.

- Mae chwe Eiriolwr Llys Uwch, y mae un ohonynt wedi gweithredu fel bargyfreithiwr ieuaf mewn treial llofruddiaeth, ac mae dau arall yn aros am hyfforddiant. Dim ond dau sydd wedi ymgymryd â threialon ond mae pob un wedi ymgymryd â gwaith megis gwrandawiadau ple a rheoli achos, apeliadau a gwrandawiadau dedfrydu, ac ystyrir y defnydd a wneir ohonynt yn y cyfarfod ar gyfer costau erlyn. Cynhelir trafodaethau ar hyn o bryd gyda CPS De Cymru i ystyried cynyddu'r gwaith a roddir i Ddyfed Powys. Ymgymerodd Eiriolwyr Llys Uwch yr Ardal â 136 o sesiynau llys ac erlynwyd chwe threial yn Llys y Goron yn 2006-07. Rhagorwyd ar y targed ar gyfer y flwyddyn honno gydag arbedion cyffredinol o £37,797 (114% o'r targed). Fodd bynnag roedd arbedion fesul sesiwn o £278 dipyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o £339.

- Roedd absenoldeb oherwydd salwch yn wael yn 2006-07 sef 13.7 diwrnod y person, o gymharu â'r perfformiad cenedlaethol o 8.5 diwrnod a tharged yr Ardal o saith diwrnod. Mae absenoldeb hirdymor yn cyfrif am 53.9% o'r holl absenoldeb. Mae pob rheolwr wedi cael hyfforddiant mewn rheoli absenoldeb oherwydd salwch a rhoddir gwybodaeth amdano i reolwyr er mwyn ei

ddadansoddi. Mae cyfraddau salwch yn gostwng ac roeddent wedi gostwng i 11 diwrnod yn ail chwarter 2007-08.

- Mae gweithio oriau hyblyg ar gael; yn benodol mae Tîm Rheoli'r Ardal yn caniatáu i gyfreithwyr weithio yn y ganolfan gyhuddo agosaf neu gartref ar ôl bod yn y llys, yn hytrach na dychwelyd i'r swyddfa. Mae nifer o staff yn gweithio'n rhan amser neu oriau llai. Caiff pob cais am weithio oriau hyblyg ei gyfeirio at Reolwr Busnes yr Ardal.

| 11 RHEOLI PERFFORMIAD ER MWYN GWELLA | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Gweddol | **Gweddol** | **Wedi gwella** |

### 11A Mae rheolwyr yn atebol am berfformiad ac mae gwybodaeth am berfformiad yn gywir ac yn amserol

- Caiff perfformiad ei ystyried bob mis fel eitem sefydlog ar yr agenda gan Dîm Rheoli'r Ardal. Defnyddir y pecyn PTPM i lywio trafodaethau. Caiff data arall ar berfformiad mewnol, megis dadansoddiad o salwch a'r defnydd o'r system rheoli achosion, ei gyflwyno i Dîm Rheoli'r Ardal hefyd gyda pheth gwybodaeth hanesyddol er mwyn iddo gael gweld tueddiadau. Fodd bynnag, er bod y pecyn PTPM yn defnyddio system 'goleuadau traffig' yn dda mewn perthynas â pherfformiad unedau unigol (sy'n ddefnyddiol mewn cyfarfodydd PTPM) nid yw'n rhoi unrhyw ddata hanesyddol, data am Ardaloedd eraill na data cenedlaethol er mwyn cymharu. Felly mae gallu'r Ardal i ddadansoddi tueddiadau'n effeithiol wedi'i leihau rywfaint yn hyn o beth.

- Sicrheir ansawdd y data a gofnodir. Mae rheolwyr uned yn gwneud defnydd da o wybodaeth PTPM, yn hapsamplu ffeiliau a ffurflenni MG3 ac archwiliadau o'r system rheoli achosion, ac maent yn cynnwys gwaith monitro megis cydymffurfiaeth ag Addewid yr Erlynwyr a Chod y Ddioddefwyr. Mae Rheolwyr Busnes hefyd yn hapsamplu ffeiliau ac yn defnyddio gwiriadau o'r system rheoli achosion ar gyfer terfynau amser cadwraeth ac at ddibenion archwilio. Caiff adroddiadau ar bob achos anffafriol eu harchwilio gan Benaethiaid Uned a'r CCP gweithredol. Caiff ansawdd llythyrau at ddioddefwyr ei archwilio gan y Cydlynydd Cyfathrebu'n Uniongyrchol â Dioddefwyr ac er ei fod yn dda ar y cyfan, mae lle o hyd i gydymffurfio'n well â'r cynllun.

- Mae Penaethiaid Uned a Rheolwyr Busnes oll yn gyfrifol am effeithiolrwydd gweithredu ac maent yn rhannu arferion da rhwng yr unedau. Mae Penaethiaid Uned yn cael cyfarfod bob chwarter â'r CCP gweithredol i drafod perfformiad yn fanwl, eu perfformiad eu hunain a pherfformiad eu hunedau. Mae'r Ardal wedi ymateb yn gadarnhaol i rai agweddau i'w gwella a nodwyd mewn adroddiadau blaenorol, megis y defnydd o archwiliadau o'r system rheoli achosion fel arf rheoli fel y'i nodwyd yn OPA 2005.

- Caiff agweddau i'w gwella, perfformiad da ac anghenion hyfforddiant eu cyfleu i unigolion drwy'r defnydd o e-bost ac arfarnu perfformiad. Trafodir penawdau perfformiad mewn pob cyfarfod tîm ac maent wedi'u nodi yn y cofnodion sy'n helpu i'w cyfleu i'r rhai na allant fod yn bresennol. Nododd arolwg staff 2006 fod 48% o staff Dyfed Powys wedi cadarnhau eu bod yn cael adborth rheolaidd ac adeiladol ar y gwaith a wnânt. Er nad yw 48% yn ymddangos yn uchel iawn, mae'n welliant sylweddol ers arolwg 2004 sef 24% ac mae'n uwch na'r ffigur cenedlaethol o 38%.

### 11B Mae'r Ardal yn ymrwymedig i reoli perfformiad ar y cyd â phartneriaid CJS

- Mae Penaethiaid Uned yn mynychu nifer o gyfarfodydd amlasiantaethol lle y trafodir perfformiad, y cytunir ar gamau ac y rhoddir adroddiadau arnynt ac maent yn cyfarfod yn rheolaidd â Rheolwyr Unedau Rheoli Sylfaenol yr Heddlu mewn cyfarfodydd perfformiad rhanbarthol. Maent yn mynychu cyfarfodydd PTPM, lle mae'r CPS yn darparu'r rhan fwyaf o'r wybodaeth am

berfformiad mewn pecyn. Trafodir cyhuddo, canlyniadau aflwyddiannus, treialon aneffeithiol a threialon chwâl ac ansawdd ffeiliau. Mae Penaethiaid Uned hefyd yn mynychu cyfarfodydd y grŵp defnyddwyr llys perthnasol, ochr yn ochr â'r heddlu a'r llysoedd, lle trafodir canlyniadau aflwyddiannus a materion eraill megis CJSSS.

- Mae perfformiad yn eitem sefydlog ar yr agenda yng nghyfarfodydd y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol ac mae'n cwmpasu amrywiaeth cynhwysfawr o agweddau gan gynnwys ffigurau treialon aneffeithiol a threialon chwâl. Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yn llywio perfformiad ar lefel strategol ac yn gosod amcanion i is-grŵp Perfformiad Ardal y Bwrdd. Mae pob asiantaeth yn cael ei chynrychioli yng Ngrŵp Perfformiad yr Ardal y mae ei waith cyfredol yn cynnwys cydgysylltu â'r llysoedd i wella perfformiad mewn perthynas â gwarantau methiant i ymddangos. Mae cofnodion y cyfarfodydd yn nodi camau i'w cymryd a chan bwy, ond ni nodir terfynau amser ar gyfer cwblhau'r gwaith. Mae strategaethau ar y cyd ag asiantaethau partner wedi arwain at nifer dda o welliannau i'r ffordd y darperir gwasanaethau, megis gweithredu CJSSS a rhybuddion amodol yn llwyddiannus, a gwelliannau yn y gwasanaeth i ddioddefwyr a thystion.

**11C Mae'r systemau mewnol ar gyfer sicrhau ansawdd gwaith achos a'r broses o'i erlyn yn y llys yn gadarn ac yn seiliedig ar waith monitro a dadansoddi dibynadwy a chywir**

- Gweithredir y system CQA safonol ac mae pob Pennaeth Uned yn archwilio o leiaf un ffeil y mis i bob cyfreithiwr a gweithiwr achos dynodedig. Roedd y gyfradd ar gyfer CQA ar gyfer 2006-07 yn 91.0% o gymharu â pherfformiad cenedlaethol o 83.8% ar gyfer yr un cyfnod. Er nad yw rheolwyr yn defnyddio'r ffurflenni CQA llawysgrif safonol mae tystiolaeth bod negeseuon e-bost yn ymwneud ag archwiliadau o waith achos yn cael eu llunio'n fanwl, gan amlinellu meysydd i'w gwella, perfformiad da a, lle y bo angen, anghenion hyfforddiant. Caiff y casgliadau a'r asesiadau eu cofnodi mewn taenlen fel sail i'r data sydd ei angen ar Bencadlys y CPS. Roedd lefel sgorio'r rheolwyr yn awgrymu perfformiad da ar farcio'r materion dan sylw. Dengys ein gwiriadau realiti fod y gwaith cyfreithiol o safon dda ac rydym yn fodlon ar gyfanrwydd y dystiolaeth ynglŷn â digonolrwydd a chadernid y CQA a'r hyn a gofnodir.

- Cadarnhaodd yr Ardal y caiff perfformiad eiriolaeth ei fonitro, ond ni chofnodwyd unrhyw ffurflenni monitro eiriolaeth yn 2006-07. Cwblhawyd nifer fach o ffurflenni ers mis Hydref 2007, ond mae'r marcio'n hael iawn a phrin oedd yr adborth adeiladol a gafwyd. Mae asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill wedi cadarnhau bod eiriolaeth yn dda ar y cyfan a bod adborth negyddol i'r CCP gweithredol neu Bennaeth yr Uned yn arwain at welliant mewn perfformiad.

| 12 ARWEINYDDIAETH | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Da | **Da** | **Sefydlog** |

**12A Mae'r tîm rheoli yn cyfleu gweledigaeth, gwerthoedd a chyfeiriad yr Ardal yn dda**

- Mae Dyfed Powys wedi cyhoeddi ei gweledigaeth a'i gwerthoedd ac mae'r rhain wedi'u hategu gan yr amcanion a nodir yng nghynllun busnes yr Ardal a chynlluniau busnes ei hunedau. Maent hefyd yn gyson â'r weledigaeth a'r gwerthoedd a nodir gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, ond dim ond 64% o staff a gadarnhaodd eu bod yn ymwybodol o'r ddogfen "Building a World Class Prosecution Service" wrth ymateb i arolwg o'r staff, "your voice", yn 2006. Mae hyn yn cymharu'n wael â'r 80% yn genedlaethol.

- Mae Penaethiaid Uned a rheolwyr yn gyfrifol am hyrwyddo amcanion y CPS gydag asiantaethau partner. Mae'r trafodaethau lleol llwyddiannus a arweiniodd at sefydlu system apwyntiadau o 60 munud mewn cymorthfeydd cyhuddo yn enghraifft ddiweddar o newid sydd bellach yn fuddiol i'r CPS a'r heddlu fel ei gilydd. Yn eu hunedau eu hunain, mae rheolwyr yn ategu negeseuon a anfonir gan yr uwch dîm rheoli. Mae'r gwelliant diweddar yn y defnydd o'r system rheoli achosion yn deillio'n uniongyrchol o'r ymagwedd gyson hon. Mae rheolwyr, yn allanol ac yn fewnol, yn dangos atebolrwydd personol i staff a phartneriaid.

- Mae ffynonellau allanol yn cadarnhau bod rheolwyr y CPS yn dangos cryn gorfforaetholdeb wrth ymdrin ag asiantaethau partner. Mae'r uwch dîm rheoli hefyd yn llwyddo i hybu cryn gorfforaetholdeb mewnol sy'n amlwg o gylch gorchwyl a chofnodion cyfarfodydd tîm, a gynhelir mor fuan â phosibl ar ôl cyfarfodydd Tîm Rheoli'r Ardal. Yn y modd hwn, caiff negeseuon allweddol eu cyfleu'n gyflym oddi wrth y CCP gweithredol a Rheolwr Busnes yr Ardal i'r staff ar bob lefel. Yn ôl arolwg staff 2006, nododd 60% o staff eu bod yn cael cyfarfodydd tîm rheolaidd o gymharu â 61% yn genedlaethol ac, o'r rhain, nododd 72% fod cyfarfodydd tîm yn effeithiol, o gymharu â 56% yn genedlaethol.

- Yn gyffredinol gall rheolwyr uned weithio'n agos iawn â chyfreithwyr a staff gweinyddol am fod yr unedau'n gymharol fach. Hyd yn oed yn yr Uned Cyfiawnder Troseddol sy'n cwmpasu Ceredigion a Sir Benfro, gall Pennaeth yr Uned gadw mewn cysylltiad agos drwy rannu ei hamser rhwng y ddau safle.

- Fodd bynnag, er bod pob rheolwr wedi mabwysiadu polisi drws agored, oherwydd y pellteroedd mawr mae'n anodd i uwch reolwyr fod â phresenoldeb yn y swyddfeydd y tu allan i Gaerfyrddin. Mae'r CCP gweithredol yn ymddangos mewn llysoedd ynadon lleol mor aml â phosibl ac mae'n manteisio ar y cyfleoedd hyn i ymweld â swyddfeydd lleol a siarad â staff o leiaf unwaith y mis. Mae hefyd yn anfon negeseuon e-bost at gyfreithwyr a gweithwyr achos bob mis ynglŷn â threfn a gweithdrefnau.

- Fodd bynnag, mae angen ffyrdd eraill o sicrhau bod staff lleol yn gallu lleisio barn yn ganolog, ac mae'r rhain yn cynnwys rhith-gelloedd cynllunio trawsunedol sy'n bwydo i mewn i'r broses o ddatblygu cynllun busnes yr Ardal. Fel rhywbeth sy'n ategu cyfarfodydd tîm a chyfathrebu dros yr e-bost, mae'r rhain yn helpu i sicrhau bod deialog rhwng staff ac uwch reolwyr.

- Mae rheolwyr ardal yn uchel eu parch ymhlith asiantaethau partner am y ffordd y maent yn mynd ati i ddatrys problemau ar y cyd mewn modd adeiladol a chyfrifol. Ar lefel y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol mae hyn wedi cynnwys gweithredu CJSSS. Mae atebion wedi cael eu trafod gyda phartneriaid yn llwyddiannus ar sail ddwyochrog mewn perthynas â chyngor cyn cyhuddo, gofal tystion, datblygiad achosion a dyrannu yn ystafell y llys ymhlith materion eraill. Yn ddiweddar, mae'r uwch dîm rheoli wedi bod yn fedrus o ran rheoli disgwyliadau rhanddeiliaid tra'n aros i CCP parhaol newydd gael ei benodi, yn enwedig mewn perthynas ag ailstrwythuro mewnol posibl.

- Mae rheolwyr yn rhoi arweinyddiaeth mewn prosiectau ar y cyd ac, unwaith eto, mae ffynonellau allanol yn canmol eu heffeithiolrwydd. Nid oes unrhyw is-grwpiau o'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yn cael eu cadeirio gan reolwyr y CPS ar hyn o bryd, ond maent yn cadeirio rhai cyfarfodydd PTPM a phenaethiaid siambrau a Thîm Gweithredu Lleol Dim Tyst, Dim Cyfiawnder.

- Mae uwch reolwyr yn ymwybodol o'r angen i nodi a mynd i'r afael â methiannau, yn enwedig mewn perthynas â rheoli adnoddau. I'r perwyl hwn, maent wedi gofyn am gymorth canolog mewn perthynas ag ailstrwythuro mewnol posibl. Gofynnwyd hefyd am adborth ar weithredu cynllun Cyfathrebu'n Uniongyrchol â Dioddefwyr yn ddiweddar ac fe'i rhoddwyd. Mae uwch reolwyr hefyd yn fodlon dysgu o'r rhith-gelloedd cynllunio sy'n bwydo i mewn i'r broses o ddatblygu cynllun busnes yr Ardal.

## 12B Mae uwch reolwyr yn gweithredu fel modelau rôl ar gyfer moeseg, gwerthoedd a nodau'r Ardal a'r CPS ac yn dangos ymrwymiad i bolisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth

- Mae uwch reolwyr yn cydnabod ac yn gwobrwyo perfformiad da gan staff yn gyson. Mae'r CCP gweithredol a Rheolwr Busnes yr Ardal yn anfon gair o ddiolch mewn negeseuon e-bost i gydnabod llwyddiant a gwaith caled. Caiff Penaethiaid Uned eu hannog i dynnu sylw at berfformiad eithriadol mewn cyfarfodydd tîm hefyd. Mae cynllun bonws wedi cael ei ddefnyddio o bryd i'w gilydd mewn perthynas â phrosiectau penodol. Ar y llaw arall, mae'r Ardal yn gweithredu ar arferion amhriodol ac aneffeithlon yn gyflym ac ymdriniwyd â nifer fach o fân achosion yn effeithiol yn ystod y misoedd diwethaf.

- Yn arolwg staff 2006, dim ond 62% o'r ymatebwyr a nododd eu bod yn cael eu trin gyda thegwch a pharch, o gymharu â 64% yn genedlaethol. Fodd bynnag, nid yw staff wedi gwneud unrhyw gwynion am y ffordd y mae rheolwyr wedi eu trin ers mis Ebrill 2006 ac ni wnaed unrhyw gwynion mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae Penaethiaid Uned yn monitro'r awyrgylch rhwng y staff yn eu hunedau ac yn ymdrin ag unrhyw anghydfod. Mae Rheolwr Busnes yr Ardal ar gael i gynorthwyo lle y bo'n briodol ond yn anaml y mae angen iddo wneud hynny a phrin iawn yw'r achosion lle mae angen cymryd camau ffurfiol. Rhoddwyd hyfforddiant yn ddiweddar ar weithdrefnau ddisgyblu a chwyno.

- Mae cynllun busnes yr Ardal yn cynnwys strategaeth glir ar gyfer hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth. Ceir amcanion ynglŷn â materion nad ydynt yn ymwneud â gwaith achos, gan gynnwys cynrychiolaeth y gweithlu, ac â materion sy'n ymwneud â gwaith achos megis troseddau casineb ac ymgysylltu â'r gymuned. Rheolwr Busnes yr Ardal sy'n arwain o ran materion cydraddoldeb ac mae'n gyfrifol am nifer o faterion sy'n ymwneud ag adnoddau dynol. Cynhelir cyfarfodydd Cyngor Whitley yn rheolaidd.

- Mae gan Ardal Dyfed Powys ddosbarthiad ethnig anarferol iawn. Dim ond 0.8% o'r boblogaeth nad yw'n wyn, ac mae tua 60% yn siarad Cymraeg. I'r graddau hyn mae gweithlu'r CPS yn cyfateb i'r gymuned a wasanaethir ganddo ac mae'r Ardal wedi cymryd camau mawr i gyfathrebu yn y Gymraeg pan ofynnir iddo wneud hynny.

| **13 SICRHAU HYDER Y GYMUNED** | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Da | **Gweddol** | **Wedi gwaethygu** |

### 13A Mae'r Ardal yn gweithio'n rhagweithiol i sicrhau hyder y gymuned

- Mae uwch reolwyr yn ymrwymedig i ymgysylltu â'r gymuned leol gyfan drwy'r Ardal gyfan, a sicrhau ei hyder.

- Mae camau gweithredu i wella hyder y gymuned wedi'u hategu gan gyfrifoldebau yn rhan o gynllun busnes yr Ardal. Ychydig iawn o gamau gweithredu a gynlluniwyd yn 2006-07 ac mae mwy o amrywiaeth yn y cynllun busnes cyfredol, sydd hefyd yn haws eu mesur na'r rhai blaenorol.

- Mae'n amlwg bod ymgysylltu â'r gymuned yn dod yn fusnes craidd nid yn unig i uwch reolwyr ond hefyd i gyfreithwyr a staff cymorth, sydd wedi mynd i amryw ddigwyddiadau lle roeddent yn gallu sôn am eu harbenigedd penodol a gwaith y CPS yn gyffredinol.

- Mae'r Ardal wedi meithrin cysylltiadau ag amrywiaeth o grwpiau sy'n cynrychioli'r rhai sydd fwyaf tebygol o wynebu allgau a gwahaniaethu ac mae wedi gwahodd rhai ohonynt i roi hyfforddiant i'r staff. Mae'r Ardal hefyd wedi ariannu myfyriwr PhD i gynnal gwaith ymchwil i integreiddio hiliol yn Nyfed Powys. Ar y cyd â'r tair Ardal CPS arall yng Nghymru mae wedi cyflwyno cynllun iaith Gymraeg gyda'r nod o ganiatáu i bobl gyfathrebu'n gyfan gwbl drwy'r Gymraeg os gofynnant. Mae'r Ardal wedi gweithio grŵp cymunedol o Bwyliaid i ddarparu taflenni Pwyleg yn esbonio cyfraith traffig Cymru a Lloegr. Cymysg fu'r adborth a gawsom oddi wrth grwpiau cymunedol gyda rhai yn credu nad oedd yr Ardal yn gwneud digon i ymgysylltu â hwy, ond roedd eraill yn canmol ymwneud y CPS a'r ffordd yr oedd yn cyfathrebu.

- Mae gan yr Ardal wybodaeth am ddemograffeg Dyfed Powys ac mae'n cynnal cronfa ddata o grwpiau cymunedol lleol. Mae wedi cael anhawster i gael y ffigurau diweddaraf am niferoedd yr ymfudwyr o'r UE ers y cyfrifiad diwethaf.

- Ceir adborth gan staff sy'n mynd i weithgareddau cymunedol drwy adroddiadau llafar mewn cyfarfodydd tîm. Mae'r staff hefyd yn cwblhau ffurflenni gwerthuso ymgysylltu â'r gymuned ar ôl mynd i weithgareddau, ond nid yw'r rhain bob amser wedi'u cadw. Defnyddir adborth i helpu i gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol ac mae newidiadau yn cynnwys prynu cyfarpar TG i helpu i roi cyflwyniadau.

- O ganlyniad i adborth gan y staff mae'r Ardal yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg erbyn hyn. Arweiniodd adborth hefyd at sicrhau bod fersiynau Braille o'r polisi ynglŷn â throseddau casineb oherwydd anabledd ar gael. Gwnaed trefniadau i sicrhau bod pobl sy'n ffonio swyddfeydd yr Ardal yn cael eu cyfarch yn Gymraeg ac yn Saesneg a bod siaradwyr Cymraeg ar gael i siarad â hwy. Mae pob aelod o staff yn cael cyfle i ddysgu siarad Cymraeg ac fe'u hanogir i wneud hynny.

- Roedd lefel hyder y cyhoedd mewn dwyn troseddwyr o flaen eu gwell yn Nyfed Powys yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn 2006-07 ond gostyngodd o 48.3% ym mis Mehefin 2006 (cyfartaledd cenedlaethol 44.2%) i 47.1% ym mis Rhagfyr 2006 (42.3% yn genedlaethol).

- Nid oes Rheolwr Cyfathrebu ar hyn o bryd ond, er gwaethaf hyn, mae perthynas gadarnhaol â'r cyfryngau lleol a Rheolwr Busnes yr Ardal yw'r prif enw cyswllt ar gyfer eu hymholiadau. Mae'r Ardal yn ceisio tynnu sylw'r cyfryngau at straeon sy'n hyrwyddo ei phroffil. Roedd yn gallu rhoi rhai enghreifftiau o gamau rhagweithiol i hyrwyddo canlyniadau llwyddiannus a oedd o ddiddordeb penodol i'r cyhoedd er nad oes swyddog y wasg. Mae'r CCP gweithredol wedi cael ei gyfweld ar raglenni newyddion Cymraeg yn ogystal ag yn Saesneg. Er bod y CCP gweithredol wedi cael hyfforddiant yn y cyfryngau nid yw'r uwch reolwyr eraill wedi cael yr hyfforddiant hwnnw ac efallai y byddai o fudd iddynt. Bydd Rheolwr Busnes yr Ardal yn rhoi hyfforddiant i bob aelod o staff a fydd yn cynnwys ymgysylltu â'r gymuned a chysylltiadau â'r cyfryngau.

# ATODIADAU

# A DATA PERFFORMIAD

## Agwedd 1: Gwneud penderfyniadau cyn cyhuddo

| | Achosion yn y llysoedd ynadon | | | | Achosion yn Llys y Goron | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Targed cenedlaethol Mawrth 2007 | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2005-06 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 | Targed cenedlaethol Mawrth 2007 | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2005-06 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
| Cyfradd dirwyn i ben | 11.0% | 15.7% | 11.9% | 10.7% | 11.0% | 13.1% | 7.2% | 6.4% |
| Cyfradd pledio'n euog | 52.0% | 69.2% | 69.5% | 71.4% | 68.0% | 66.5% | 59.0% | 64.3% |
| Cyfradd athreulio | 31.0% | 22.0% | 19.4% | 18.1% | 23.0% | 22.2% | 28.9% | 22.7% |

| | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|
| Penderfyniadau cyn cyhuddo sy'n arwain at gollfarn ar ôl cyhuddiad | 78.0% | 81.2% |

## Agwedd 2: Sicrhau canlyniadau llwyddiannus yn y llysoedd ynadon

| | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|
| Canlyniadau llwyddiannus (collfarnau) fel canran o'r achosion a gwblhawyd yn y llysoedd ynadon | 84.3% | 84.0% |

| Cyfraddau treial | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|
| Cyfradd treialon effeithiol | 43.8% | 64.9% |
| Cyfradd treialon chwâl | 37.3% | 22.4% |
| Cyfradd treialon aneffeithiol | 18.9% | 12.8% |
| Cyfradd treialon a ddirymwyd | 22.5% | 18.2% |

**Perfformiad cyffredinol o ran troseddwyr ifanc cyson (rhwng arestio a dedfrydu)**

| Targed cenedlaethol | Perfformiad cenedlaethol 2006 | Perfformiad yr Ardal 2006 |
|---|---|---|
| 71 diwrnod | 72 diwrnod | 49 diwrnod |

*Troseddau y caiff troseddwyr eu dwyn o flaen eu gwell amdanynt*

| | Targed CJS yr Ardal 2006-07 | Perfformiad CJS yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|
| Nifer y troseddau y caiff troseddwyr eu dwyn o flaen eu gwell amdanynt | 10,655 | 30,124 |

| Troseddau y caiff troseddwyr eu dwyn o flaen eu gwell amdanynt yn ôl canran | Cenedlaethol 2006-07 | Ardal cyfiawnder troseddol 2006-07 |
|---|---|---|
| Troseddau a ystyriwyd (TCIs) | 8.5% | 5.4% |
| Hysbysiadau cosb am anrhefn (PNDs) | 10.3% | 6.8% |
| Rhybuddion ffurfiol | 5.8% | 7.2% |
| Rhybuddion | 26.5% | 38.6% |
| Collfarnau | 48.8% | 42.0% |

## Agwedd 3 Sicrhau canlyniadau llwyddiannus yn Llys y Goron

| | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|
| Canlyniadau llwyddiannus (collfarnau) fel canran o'r achosion a gwblhawyd yn Llys y Goron | 77.7% | 78.7% |

| Cyfraddau treial | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|
| Cyfradd treialon effeithiol | 48.2% | 70.0% |
| Cyfradd treialon chwâl | 39.5% | 24.7% |
| Cyfradd treialon aneffeithiol | 12.4% | 5.3% |

| Gorchmynion Deddf Elw Troseddau | Targed yr Ardal 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|
| Gwerth | £253,014 | £338,254 |
| Nifer | 35 | 20 |

## Agwedd 10: Rheoli adnoddau

| | 2005-06 | 2006-07 |
|---|---|---|
| Alldro cyllideb costau gweinyddu heb eu neilltuo | 101.3% | 102.9% |

| Lleoli staff | Targed cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|---|
| Lleoli DCW (fel % o'r sesiynau yn y llysoedd ynadon) | 17.2% | 14.7% | 12.9% |
| Arbedion HCA yn erbyn targed yr Ardal | 100% | 138.4% | 156.6% |
| Absenoldeb oherwydd salwch (fesul cyflogai y flwyddyn) | 7.5 o ddiwrnodau | 8.5 o ddiwrnodau | 13.7 o ddiwrnodau |

## Agwedd 13: Sicrhau hyder y gymuned

**Hyder y cyhoedd yn effeithiolrwydd yr asiantaethau cyfiawnder troseddol o ran dwyn troseddwyr o flaen eu gwell (Arolwg Troseddu Prydain)**

| Canran sylfaen ardal y CJS 2002-03 | 2004-05 (OPA diwethaf) | Perfformiad yn 2006-07 |
|---|---|---|
| 46.0% | 53.0% | 47.9% |

# B ASIANTAETHAU CYFIAWNDER TROSEDDOL A SEFYDLIADAU A GYNORTHWYODD Â'R ASESIAD HWN O BERFFORMIAD CYFFREDINOL

**Yr Heddlu**
Heddlu Dyfed Powys

**Gwasanaeth Llysoedd EM**
Llys y Goron a llysoedd ynadon

**Cymorth i Ddioddefwyr**
Cymorth i Ddioddefwyr Dyfed
Cymorth i Ddioddefwyr Powys

**Grwpiau Cymunedol**
Grŵp Amrywiaeth Diwylliannol Powys

HMCPSI Rhif Cyhoeddiad 768 / HMCPSI publication no. 768

**Os gofynnwch i ni, gallwn ddarparu crynodeb neu fersiwn cyflawn o'r llyfryn hwn mewn Braille, print bras neu mewn ieithoedd eraill.**

**I gael gwybodaeth neu i gael mwy o gopïau o'r llyfryn hwn, cysylltwch â'n Tîm Cyhoeddiadau ar 020 7210 1197, neu ewch i'n gwefan: www.hmcpsi.gov.uk**

Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron EM
Swyddfa Llundain:
26-28 Old Queen Street
London SW1H 9HP
Ffôn: 020 7210 1197
Ffacs: 020 7210 1195

Swyddfa Caerefrog:
United House, Piccadilly
York, North Yorkshire, YO1 9PQ
Ffôn: 01904 54 5490
Ffacs: 01904 54 5492

Gwefan:
www.hmcpsi.gov.uk

ⓗ Hawlfraint y Goron 2008